

ECO'R WYDDFA

RHIF 31

TACHWEDD 1978


Pris: 12c

DAWNS A CHÂN

Mewn cwt ieir

DISCOS a chyngherddau mewn hen gwt ieir yn yr ardal! Syniad anarferol a ddaeth yn ffaith yn ddiweddar drwy lafur caled aelodau a chyfeillion Côr Meibion Caernarfon.

Cynigiodd Mr R. Hughes Jones, Ffarm Bryn Afon, Llanrug hen gwt ieir (sy'n adeilad reit sylweddol) i Gôr Meibion Caernarfon (Ferodo) i gynnal nosweithiau disco a chyngherddau. 'Roedd stormydd y gaeaf diwethaf wedi gadael eu hôl ar yr adeilad a bu'n rhaid mynd ati i atgyweirio'r lle.



Bu criw o hogiau'r côr wrthi'n gweithio gyda'r nosau ar ôl eu gwaith ac ar benwythnosau. Ar ôl dau fis, diolch i'w hymdrechion - 'roedd y lle yn ddigon addas i gynnal dau ddisco.


Y bwriad yn awr yw gwneud yr adeilad yn addas ar gyfer nosweithiau difyr yn ystod y gaeaf. Er enghraifft, cynhelir Noson Ysgubor Lawen ar Dachwedd 25 gyda Parti Dwylan ac Arwel Jones yn arwain. Noson i godi arian ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol fydd hon. Bydd tocynnau ar werth yn y dyfodol agos.

Dymuna Mr. R.C. Roberts yr Ysgrifennydd Adloniant ddiolch ar ran y Côr i bobl yr ardal am eu cymorth. "Yr wyf yn deall bod ein discos wedi bod yn llwyddiannus," meddai, "ac yr ydym yn gobeithio gwella ar hyn yn y dyfodol heb newid rhyw lawer ar gymeriad yr adeilad."



Aelodau a chyfeillion Côr Meibion Caernarfon a fu'n brysur yn atgyweirio'r adeilad. Mae'r rhan fwyaf o'r rhai a welir yn y llun yn byw ym mro'r Eco neu yn enedigol o'r ardal.

MAE'R COFFRAU'N LLENWI - YN ARA' DEG



Dengys y graff uchod safle ariannol pob pentref yn y fro ar ôl eu hymdrechion i godi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1979. Dengys hefyd y targedau. Llongyfarchiadau i'r pentrefi hynny sydd wedi cwblhau'r gwaith. Rhaid cydnabod fod y dasg mewn ambell i bentref yn un drom iawn a byrdwn y gwaith (fel pob gwaith gwirfoddol arall) yn syrthio ar ysgwyddau'r ychydig. Rhaid canmol y pentrefi bach am lafurio mor galed gyda chyn lleied o gymwysterau: a rhaid edmygu gweithwyr yn y pentrefi mawrion am eu dycnwch a'u dyfalbarhad i wynebu targedau aruthrol. Pe bai pawb yn rhoi dyfalbarhad i wynebu baich byddai'n haws cyrraedd y nod. Ymddengys y graff yma o fis i fis yn yr Eco er mwyn i bawb weld eu sefyllfa eu hunain. Dichon y bydd y swyddogion perthnasol yn rhoi gwybod i'r Eco am newidiadau yn y sefyllfa ariannol. Pob lwc gyda'r gwaith.

ECO'R WYDDFA

RHIF 31 TACHWEDD 1978

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd,
Nant Peris.

Cyhoeddwyd gyda chymorth Cym-
deithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFF-
REDINOL:** Twrog Jones, 23 Glan-
ffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Arwel
Jones, Gwên-y-Wawr, Llanrug (C'fon
3719)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun.

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisarwaun.

TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis
(Llanberis 220)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant. (Waunfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glandfynnon, Llan-
rug (C'fon 4669)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug.

TREFNYDD GWERTHIANT: Selwyn
Williams, Cartref, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 3577)

FRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones,
58 Pentre Helen, Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHIANT POST :
Mrs. E. Evans, "Lloc," Llanrug.

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r
bobl i gysylltu a nhw yn eich ardaloedd
BETHEL: Geraint Elis, Sycharth,
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs. Brenda Jones,
Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G.Ellis, Gwelledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel (Waun-
fawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs. Gwyneth Chick,
1 Tan y Bryn, Cwm-y-glo.

DEINIOLEN: Meirion Jones, Minafon,
Clwt-y-bont. (Llanberis 452).

DINORWIG: O.R.Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs. Siân Thomas,
Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs. Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel, Llanrug. (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Leslie Larsen,
Llygad yr Haul, (Llanberis 533)

TAN Y COED: Miss Megan Humph-
reys, 4 Tai Tan y Coed (W'fawr 355)

Llythgyrau

Blaen-Parc,
Bethel,
Caernarfon.

Annwyl Olygydd,

Tybed a fuasech mor
garedig â rhoi'r dyddiadau hyn o
weithgareddau Clwb y Mamau
Bethel yn nyddiadur yr Eco bob
mis?

'Rydym yn cyfarfod yn yr
ysgol am hanner awr wedi saith ar
y nos Fercher olaf o'r mis. Yn ein
plith mae llawer o ddysgwyr
Cymraeg ac maent yn cwyno o
golli tudalen y dysgwyr yn yr
Eco! Byddaf yn cael pleser mawr
o ddarllen yr Eco a chael gwybod
trwy Ddyddiadur y Mis beth
sydd yn mynd ymlaen yn y fro
o'm cwmpas.

Llawer o ddiolch ichwi.

Yr eiddoch yn gywir,
Elizabeth E. Evans.

BRWYDR GWAUN GYNFI

Annwyl Syr,

Yn eich rhifyn diwethaf
soniwyd am y frwydr rhwng y
Cymry a'r Saeson yng Ngwaun
Gynfi ac am y traddodiad bod y
lladdedigion wedi cael eu claddu
mewn lle a elwid Beddau y
Chwilwyr ger Blue Peris, Din-
orwig. Y llecyn ydyw gwaelod y
cae o dan Tŷ Powdwr, yr ochr
dde i'r llwybr sy'n arwain i'r
coed a Phenbrynspio, y ddau
lecyn gwastad rhwng y llwybr a'r
Domen Fawr. Pan oeddwn i yn
blentyn 'roedd 'na amryw o
wrymiau ar wyneb y tir (maent

yno o hyd, hyd y gwn) fel pe bai
rhywun wedi bod yn ei draenio i
i'w sychu. Dywedai Mam, a hanaï
o hen deuluoedd y dyffryn cyn
datblygiad y chwarel a mew-
lifiad pobl ddiethr, y byddai ei
nain (oedd yn ferch i'r hen
Griffith Ellis, a ddatblygodd y
chwarel rhwng 1810-1860) yn
galw'r llecynnau yn Feddau y
Milwyr. 'Rwyf yn amau'r tradd-
odiad a bu blys arnaf lawer
gwaith durio i gael gweld a oedd
rhywbeth yn y traddodiad ynteu
ai traeniau sychu tir oeddynt.
Anodd deall hefyd paham y
cludid y cyrff, os gwnaed, tros
ddwy filltir o fynydd gwyllt ac
anodd i'w claddu.

H. Thomas,
Llannor.

Abergeldie,
Ffordd Buddug,
Aberystwyth.

Annwyl Syr,

Gan fy mod ar hyn o
bryd yn gwneud gwaith ymchwil
i'r gwrthwynebiad i'r Rhyfel Byd
Cyntaf yng Nghymru, byddaf
ddiolchgar am unrhyw wybodaeth
gan eich darllenwyr am wrth-
wynebwyr cydwybodol y cyfnod
hwnnw.

Os oes rhywrai a fuont eu
hunain yn wrthwynebwyr, neu os
oes gan rywun wybodaeth am wŷr
a wrthwynebodd, fe fyddwn yn
falch o glywed oddi wrthynt.

A fyddwch crystal ag anfon
gair i'r cyfeiriad uchod?

Diolch ymlaen llaw.

Yn gywir,
Aled Eirug.

CYFRANIADAU

Hoffai'r Eco ddiolch i'r rhai
canlynol am eu cyfraniadau
hael:

(£1) Y Parch. H. Thomas,
Llannor.

(£2) Miss Ellen Jones, Tre-
lawnyd (gynt o Glandfynnon).

(£2) Mrs. Sybil Williams,
Bryn Awelon, Degannwy.

(£1) Colin Davies, Chester-
field.


RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf allan
ar TACHWEDD 30.

Deunydd i law'r golygyddion
priodol

erbyn TACHWEDD 22,
os gwelwch yn dda

MODURDY MENAI




FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO

Eric Morris



Bwsiau Arfon
LLANRUG

FFÔN
WAUNFAWR 254

O'R CYNGHORAU

CLOGWYN CLIMBING GEAR

Yn ôl y Cyngorydd Pat Larsen,
mae dyfodol y gweithwyr yn
edrych yn ddiogel yn awr, wedi
cyfarfod o Bwyllgor Cynllunio
Cyngor Arfon ddechrau'r mis. Yn
ôl pob golwg bydd y ffatri yn aros
yn yr ardal ac yn ehangu, ac ni
fydd yn rhaid symud o'r fro i
stad ddiwydiannol fel Cibyn neu
Landygai, fel yr ofnid ar un adeg.

TOCYNNAU BYSUS I'R HENOED

Erbyn hyn bydd y rhan fwyaf
o'r tocyntau wedi eu dosbarthu.
Dywedodd y Cyngorydd Pat
Larsen ei bod hi wedi anfon
llythyr at Mr. D.L.Jones, Prif
Weithredwr Cyngor Arfon yn
gofyn iddo roi cais gerbron y
Cyngor. Cais ydyw yn gofyn i
Cyngor Arfon godi'r swm a roddir
i'r henoed a'r methodig o £4.50 i
£7.50 fel ym Môn neu £10 fel
yn Nwyfor, neu gadael iddynt
deithio ar y bysbus am hanner
pris ar adegau arbennig.

GOLEUADAU CYHOEDDUS

Holwyd Pat Larsen ynghylch y
goleuadau cyhoeddus newydd ym
Mhenisarwaun a Brynrefail a
dywedodd eu bod wedi dod o'r
diwedd, yn dilyn 15 mis o ohebu
â'r Cyngor Sir. Yn awr mae'r
contract yn nwylo M.A.N.W.E.B.
a hwy fydd yn gweithio allan y
rhaglen a'r manylion.

E.&E.M.
GREEN

SIOP
GRON

A SWYDDFA'R POST

PENISARWAUN

Ffôn: PADARN 272

NWYDDAU GROSER
FFRWYTHAU A LLYSIAU
FFRES

Wavell
Roberts
CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

LLANRUG

PANTOMEIM — Trefnir bws i fynd i weld 'Eli Babi' yn Theatr Gwynedd ddydd lau, Rhagfyr 28 am 2 o'r gloch. Oedolion £1.20, plant 60c. Enwau i Siân Williams, Cartref, Ffordd yr Orsaf erbyn Tachwedd 10, os gwelwch yn dda.

MERCHED Y WAWR — Cyfarfu'r gangen Hydref 10 pryd y cafwyd noson o ffilmiau gan Mrs. Carys Aaron. Diolchwyd iddi gan Mrs Evans, Lloc. Y llywydd oedd Mrs. Nansi Lovatt. Derbyniwyd gwahoddiad i ymweld a changen Llangeftni ar Dachwedd 6. Enwau i Mrs Beth Ann Williams erbyn Hydref 27.

Rhodddwyd adroddiad o'r Pwyllgor Rhanbarth gan Mrs Beth Ann Williams. Derbynnir enwau i'r Parti Nadolig ar Ragfyr 10 gan Mrs Eirlys Pierce, gyda phunt o ernes.

Enillydd y raffl oedd Mrs Marian Williams. Diolchwyd i'r gwestwragedd gan Mrs Ann Parry.

BEDYDDIO — Yn ystod oedfa bore Sul Hydref 1 yng Nghapel Mawr bedyddiodd y gweinidog, y Parch. W. O. Roberts, Catherine Jane, merch fach Mr a Mrs Richard Williams, Llanelwy. Taid a nain yr eneth fach yw Mr a Mrs Oswald Davies, Plas Gwyn.

LLONGYFARCHIADAU — Llongyfarchion calonnog i Mrs Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt ar ei llwyddiant yn ennill y wobwr gyntaf mewn cystadleuaeth agored i lunio 'Stori Serch' Ymddengys y stori yn rhifyn Hydref o gylchgrawn Merched y Wawr. Mae Mrs Roberts yn aelod o

gangen Llanrug ac yn athrawes yn Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen.

CYDYMDEIMLIR — â Mr Cecil Williams, 47 Bro Rhyddallt a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam Mr Williams yn Lerpwl (gynt o Gwm-y-glo).

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD, **CAPEL MAWR** — Agorwyd tymor y gaeaf gyda Noson Goffi. Cymerwyd y gwasanaeth dechreuol gan Mrs Catrin Roberts, Tŷ Capel. Gwnaed trefniadau ynglŷn â diolchgarwch y chwiorydd ac anfonwyd cofion at y rhai oedd yn methu â bod yn bresennol. Diolchwyd hefyd am roddion mewn arian a nwyddau gan y rhai na allent fod gyda ni nos lau. Rhodddwyd y coffi gan Mrs Mai Parry, Bryn Heli a Mrs Elizabeth Jones, Bryn Heli a diolchwyd iddynt gan y llywydd, Mrs W.O. Roberts, Anedd Wen. Cofiwch am y Ffair Nadolig flynyddol sydd i'w chynnal nos lau, Rhagfyr 7. Diolch yn fawr.

YR ŴYL DDIOLOCHGARWCH — Caed cyfarfodydd Diolchgarwch bendithiol yn eglwys i'r ardal ddydd Sul a dydd Llun, Hydref 14 a 15. Nos Sul daeth cynulliad da i gyfarfod o dan arweiniad y plant yn festri Pontrhythallt. Cafwyd cyfarfodydd gan y plant hefyd fore dydd Llun yn y Capel Mawr a'r prynhawn yng Nghapel Tan-y-coed. Yr oedd awyrgylch gwir addoliad i'w deimlo ymhob un o'r cyfarfodydd hyn a buont yn fendith i bawb oedd yno. Gellir dweud yr un peth am y cyfarfod a arweiniwyd gan chwiorydd y Capel Mawr yn y prynhawn; a hyfryd oedd gweld sêr fawr y Capel Mawr yn llawn o bobl ieuaic yn arwain mewn defosiwn gyda graen a didwylledd calon yn oedfa'r hwyr. Y mae'r rhai a gymerodd ran yn yr holl gyfarfodydd yn rhy niferus i'w henwi ond gwerthfawrogi eu gwasanaeth yn fawr gan iddynt fod yn gyfryngau i ddwyn bendith arbennig iawn i lawer.

UNDEB Y MAMAU — Agorwyd tymor 1978-79 gyda gwasanaeth yn Eglwys Sant Mihangel o dan arweiniad y Rheithor. Da oedd gweld cynifer wedi dod ynghyd. Mwynhawyd

cwpaned o de a lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi yn y Rheithordy gan Mrs Williams a Mrs D. Pierce, Glan'rafon.

GŴYL Y CYNHAEAF — Cynhaliwyd gwasanaethau Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn Eglwys Sant Mihangel ar Sul, Hydref 8 a Llun Hydref 9. Gweinyddwyd yr offeren fore Sul gan y Rheithor ac ef hefyd a arweinai wasanaeth y plant brynhawn Sul. Y pregethwr gwadd yn yr Osber nos Sul oedd y Parch. Canon Alwyn Rice Jones, Ficer Porthmadog. Canwyd yr Osber gan y Rheithor ac ef hefyd oedd yn arwain gwasanaeth nos Lun pryd y pregethwyd gan y Parch. F.M. Jones, Rheithor Llanbedrog. Yr organyddion oedd Mr J.T. Morris, Glanffynnon a Miss N. Owen, Glan'rafon. Addurnwyd yr Eglwys yn hardd iawn gyda blodau, ffrwythau a llysiau. Rhannwyd peth o'r cynnyrch ymysg y plwyfolion ac aed â rhoddion y plant i Blas Pengwaith, Llanberis.

RHODDION — Derbyniwyd rhodd o £5 tuag at gronfa atgyweirio Eglwys Sant Mihangel gan Mrs D. Jones, Penrhos. Cafwyd rhodd o 'rug' wedi ei gwneud gan Mrs W.E. Owen, Bryn-y-Maen at wasanaeth yr Allor. Diolchwn iddynt am eu haelioni.

CRONFA'R FYNWENT — Derbyniwyd y cyfraniadau canlynol tuag at gronfa Mynwent Eglwys Sant Mihangel yn ystod y mis: — Miss A. Jones, Mason Street, Bangor £1; Dienw, Ceunant £1; Miss D. Jenkins, Meifod £5; Dienw, Llanrug £5. Diolchwn iddynt oll.

YN GWELLA — Da deal fod Mr a Mrs Elfed Roberts, 24 Glanffynnon yn gwella ar ôl eu hanhwylder. Derbyniodd Mrs Roberts driniaeth yn yr ysbyty. Dymunwn adferiad buan hefyd i Mrs G. Griffith, Dolanog sydd ar hyn o bryd yn aros gyda'i merch ym Manceinion ar ôl dychwelyd o'r ysbyty.

MARW — Yn ddiweddar bu farw Mr Robert Jones, gynt o Idan House, Llanrug. Bu am flynyddoedd yn cadw busnes Barbwr yn Idan House ac yn adnabyddus i gylch mawr iawn o gyfeillion. Wedi marw ei briod ychydig flynyddoedd yn ôl aeth i fyw gyda'i ferch a'i fab yng nghyfraith ym Mhrestatyn lle y cafodd bob gofal. Oherwydd gwaeledd bu rhaid ei symud i gartref Plas y Nant ac yno y bu farw. Tra yn Llanrug, bu yn un o aelodau mwyaf ffyddlon Eglwys Sant Mihangel lle bu'n glochudd am nifer fawr o flynyddoedd. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Llanrug. Gwasanaethwyd yn yr Eglwys gan y Rheithor a'r Canon Alun Jones, Rheithor Llanberis, a hwy hefyd a wasanaethai ar lan ei fedd. Cydymdeimlwn â'i fab a'i ferch ac â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHION PEN-BLWYDD i Geraint Rowlands, Llys Forgan a fydd yn ddeunaw oed ar Hydref 30. Deallwn hefyd iddo fod yn llwyddiannus yn ei arholiadau a dymunwn yn dda iddo yn ei arholiad terfynol gogyfer a bod yn gyfrifydd.

Y DIWEDDAR MR. WILLIAM HUMPHREYS, LAS YNYS — Chwith meddwl fod y cyfaill siriol hwn wedi ein gadael mor annisgwyl. Gŵr a anwyd ac a fagwyd yn Eifionydd oedd William Humphreys. Cafodd fagwraeth dda a chrefyddol, a bu'n ffyddlon i grefydd ar hyd ei oes. Bedyddiwyd ef yng Nghapel M.C. Tremadog. Yno hefyd y dewiswyd ef yn flaenor pan oedd yn bur ieuaic. Bu ef a'i briod yn gofalu am gapel Rehoboth, Nant Peris am rai blynyddoedd cyn symud i dŷ capel Tan-y-coed. Yn y cylch hwn rhoddodd o'i orau i'r eglwys i bu'n aelod ohonynt. Dewiswyd ef

yn flaenor yn Nhan-y-coed lle y rhoddodd ei orau mewn ffyddlondeb a gwasanaeth. Gedy i alaru ar ei ôl weddw a merch ynghyd â brodyr a chwiorydd. Cydymdeimlir â'r teulu oll yn eu trallod. Erys ei le yn wag iawn yn yr ardal, ym Manton, yn Eglwys Tan-y-coed ac yn arbennig yn ei gartref.

FFAIR GAFAF RIGARUG — Cynhelir y ffair yn neuadd Ysgol Brynrefail nos lau, Tachwedd 16 am 7.30. Buasai'r canlynol yn gwerthfawrogi cyfraniadau tuag at eu stondinau: Teisennau; Mrs Llywelyn, Mrs Thomas, Dolwar, Mrs Vera Williams, Awelon a Mrs Sheila Williams. Bwyd: Mrs Myfi Roberts, 2 Tai Plastirion a Mrs Gaynor Williams, Penrhyfyn. Eliffant Gwyn: Mrs Siân Williams, Cartref. Gwaith Llau: Mrs Nesta Pritchard, Mrs Owen, Trigle a Mrs Carys Evans. Da-da: Mrs Catrin Roberts, Tŷ Capel. Cynnyrch Cartre: Mrs Beth Ann Williams. Planhigion: Mrs G.M. Jones, Y Dalar Deg. Llyfrau: Mrs Ann Llwyd. Teganau ail-law: Mrs Lovatt.

STAMPIAU GWYRDD AT Y STEDDFOD — Os oes gennych stampiau gwyrdd (Green Shield) i'w sbario, buasai Cronfa'r Eisteddfod yn ddiolchgar iawn. Derbynnir hwy gan Mrs J. Williams, Bod Fair.

TAITH FEICIAU NODDEDIG — Caed taith feiciau lwyddiannus ac mae'r arian yn dod i law tuag at Gronfa Rigarug. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.

DISCO GWRACH — Blant yr ysgol gynradd, cofiwch am y disco nos Fawrth, Hydref 31 o 7 hyd 9 o'r

gloch. Cofiwch hefyd am y gystadleuaeth 'Het Gwrach'.

RHODD I GRONFA RIGARUG — Gwerthfawrogn yn fawr rodd o £50 a dderbyniwyd yn ystod y mis gan Glwb y Mamau.

AR WERTH — Mae Plât y Brifwyl a recordiau 'Canu Caernarfon' yn parhau ar werth. Cysylltwch â Mr Gareth Roberts, Gregynog.

NEWYDDION Y SEINDORF — Cynhelir y Swper Blynyddol yng Ngwesty'r British, Bangor ar Ragfyr 9.

'Rydym yn falch iawn fod Mr Merfyn Lloyd Jones wedi dychwelyd adref ar ôl triniaeth yn yr ysbyty. Dymunwn adferiad buan iddo.

Bydd gwasanaeth wrth y Sefydliad Coffa fore Sul, Tachwedd 12, saf Sul y Cadoediad am chwarter i ddeg, a chymerir rhan gan y Rheithor, y Gweinidog a'r Seindorf.

Mae'r Cwt Band wedi cyfnewid yn arw a diolchwn i Mr Arthur Jones ynghyd â rhai o'r aelodau am waith rhagorol. Diolchwn hefyd am bob cyfraniad arall, coed, paent a chwpaneidiau o de gan gymdogion! Os oes rhywun eisiau dod i'r Gystadleuaeth Bandiau yn Pontin's ar Dachwedd 4, fe dderbynnir enwau gan yr ysgrifennydd, Mr Raymond Jones, Bryn Fedwen.

DIOLCH — Carem ddiolch i'r Parch. a Mrs Gwynfor Williams am ddosbarthu ffrwythau gan blant yr Ysgol Sul i henoed Cartref Plas Pen Gwaith, Llanberis. Hefyd i gôr Ysgol Dolbadarn a'u hathrawon am gynnal gwasanaeth, y blodau hardd a'r ffrwythau. Diolch am feddwl amdanynt bob blwyddyn.

CLWB CANT —

Enillwyr Clwb Cant: 1) £10: Mr. O.E. Evans, Monallt Llanrug; £2.50: Sandra Trevor, Hafod Garage; £2.50 Rhian Jones, 3 Minffordd.

DYNION Y WAWR!



Dyma rai o Ferched y Wawr Llanrug oedd yn dymuno bod yn ddynion mewn cyngerdd yn y pentref yn ddiweddar. Mae llun arall o'r un gân actol ar y dudalen ganol.

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

FFÔN
CAERNARFON 2898

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

MORDAITH FYTHGOFIADWY

Bu criw o tua deg ar hugain o ddisgyblion yr ysgol, ynghyd a Mr Dafydd Evans a'r Prifathro, Mr Elfyn Thomas, ar daith ar y llong ysgol 'S.S. Uganda' rhwng Medi 22 a Medi 29. Ar y fordaith, yn cychwyn yn Tenerife ar ôl hedfan o Gatwick, a galw yn Madeira a Lisbon cyn dychwelyd i Southampton, yr oedd tua naw cant o blant i gyd, yn cynrychioli tuag ugain ysgol.

Er na chawsant weld llawer ar ynys Tenerife, cafodd y parti amser ardderchog yn Funchal (Madeira) a Lisbon (prif-ddinas Portiwgal); y cyfan mewn tywydd poeth. Mae'n syndod na suddodd y llong o dan bwysau'r holl anrhegion a gludwyd adref!

Cynhaliwyd cwis ar y llong rhwng yr ysgolion, a thfm o Ysgol Brynrefail oedd yr enillwyr. Aelodau'r tîm oedd Karon Owen, Shirley Owen, Gwilym Roberts a Dewi Williams.

DISCO LLWYDDIANNUS

Nos Wener, Hydref 6 cynhaliwyd disco yn neuadd yr ysgol i ddosbarthiadau 3,4,5 a 6. Gwnaed

dros £100 o elw, a bydd hwnnw yn mynd tuag at gynnal parti Nadolig i blant Pendalar.

TAITH FYNYYDDA

Dydd Sadwrn, Hydref 7 aeth criw o'r ysgol dan ofal Dr. Prys Jones ar daith fynydda i fynyr Glyder Fawr. Buont ddigon ffodus o gael tywydd ardderchog y tro hwn!

YMWELWYR O DENMARK YN YR YSGOL

Pnawn Mercher, Hydref 11 cafodd y chweched dosbarth ymweliad gan bump ar hugain o ddisgyblion chweched dosbarth ysgol yn Copenhagen, Denmarc.

CASGLU ARIAN AT ACHOS DA

Yn ystod wythnos ddiwethaf yr hanner cyntaf o'r tymor, casglwyd swm sylweddol o arian yn yr ysgol tuag at blant o dan anfantais Ysgol Treborth.

DEWIS CAPTEINIAID YR YSGOL

Capteiniaid yr Ysgol eleni yw: Anita Jones, Brynrefail a Dewi Williams, Seion. Yr is-gapteiniaid yw: Karon Owen, Llanrug ac Eifion Jones, Deiniolen.



Disgyblion Ysgol Gynradd Cwm-y-glo a fu'n llwyddiannus yn ddiweddar mewn profion nofio: Siân Jones, Delyth Roberts, Steven Owen, Bryn Evans, Michael Roberts, Mark Williams, Gwyn Morris, Terry Jones, Einir Evans, Kathy Williams.

YSGOLION MEITHRIN ARFON

Nos Fercher, Medi 27 dan lywyddiaeth Mrs. Gwenda Davies, Tregarth, agorwyd gweithgareddau gaeaf Ysgolion Meithrin Arfon trwy gyfarfod yn Ffestri Croes-y-Waun, Waunfawr.

Ffarwelwyd a diolchwyd i Mrs. Mair Jenkins Jones, ein cyn-swyddog cyswllt, sydd wedi derbyn swydd arall. Dymunir yn dda iddi. Dosbarthwyd cardiau Nadolig i'r gwahanol gylchoedd.

Byrdwn y noson oedd croesawu Mrs. Elsbeth Hitchinson, llyfrgellydd plant Gwynedd. Cafwyd sgwrs ddifyr iawn ganddi ar wahanol agweddau o'r gwaith. Dangoswyd ffilm fer. Diolchwyd iddi gan Mrs. Eryl Roberts, Llanrug. Diolch i bwyllgor cylch Meithrin Waunfawr am eu croeso. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 30 am 7.30 o'r gloch yn Ysgol Pendalar, Caernarfon.

Simneiau glân am bris rhesymol gan



G. LLOYD

4 PLAS TIRION TERRACE,
LLANRUG

Defnyddir
peiriant sugno i lanhau

Ffôn: Caernarfon 4781

MAE'R STEIL WEDI NEWIDI DEINIOLEN 1949



AIL DDOSBARTH YSGOL BABANOD DEINIOLEN 1949

Yr athrawes oedd Miss Glenys Ellis a'r ysgolfeistr Mr. Richard Jones. Y llun wedi ei anfon gan Mrs Eirlys Gibson, 17, Hafod Olau, Deiniolen.

YSGOL LLANDINORWIG 1939



Y llun trwy garedigrwydd Mrs Jones, 7 Hafod Olau, Deiniolen.

PENISARWAUN 1911 (tua)



Llun trwy garedigrwydd Mrs Gayney J. Jones, Bangor

PENISARWAUN - PA FLWYDDYN TYBED?



CWM - Y-GLO

LLYN PERIS, HYDREF 21, 1978

PRIODAS — Dydd Sadwrn, Medi 9 yng Nghapel y Tabernacl, Cwm-y-glo priodwyd Irene Vaughan, unig ferch Mr a Mrs Arthur Vaughan Williams, Mona, a Steven Charles, mab Mr a Mrs Arthur Price, Rochdale. Gweinyddwyd gan y Parch. W.O. Roberts, Llanrug, a'r organyddes oedd Miss N. Owen, Pont-rug. Bu Irene yn ddisgybl llwyddiannus iawn yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, a chafodd yrfa ddysglair ym Mhrifysgol Manceinion, gan ennill gradd B.A. yn y Gyfraith. Bellach mae'n bartner gyda Grundy & Kershaw, Cyfreithwyr, Manceinion, ac mae galw ei bod am ei gwasanaeth fel cyf- ieithydd o'r Gymraeg. Mae'r priod- fab hefyd yn bartner gyda Charles Buckley a'i Gwmni, Cyfreithwyr, Man- ceinion. Byddant yn cartrefu yn 'Helygen,' Cherry Grove, Rochdale.

Ymfalchiwn yn llwyddiant pawb o'n pobl ifanc yn eu dewis alwedigaeth, a dymunwn bob hapusrwydd a llwydd- iant pellach i'r pâr ifanc.

LLWYDDIANT — Llongyfarchiadau cynnes i John Russell, mab Mr a Mrs Russell Rowlands, Talafon ar basio ei arholiadau i fod yn Arolygwr gyda'r Heddlu. Mae John, sydd yn briod gyda dau o blant, yn Rhingyll yn ardal Penarlâg. Pob llwyddiant iddo eto yn y dyfodol.

PRIODAS EURAID — Ar Dachwedd 3 bydd Mr a Mrs John Phillips yn dathlu eu Priodas Euraid. Un o'r Cwm yw Mr Phillips a Mrs Phillips yn frodor o West Bromwich. Ond er mai yn Lloegr y maged hi, ni fu Mrs Phillips fawr o dro yn meistrol'r Gymraeg. Llongyfarchion calonnog y pentref i chwi, a gobeithio y cewch lawer blwyddyn eto o gyd-fyw, a phob hwyl ym mharti'r dathlu gyda'ch teulu a'ch cyfallynion.

GWAELEDD — Cipiwyd Mr Hubert Roberts, Bod Gwynedd a Mr Tom Jones, 4 Stryd Newydd i ysbytai yn ystod y mis, ond da clywed fod Mr Roberts gartre'n ôl. Bu ei briod Mrs Gwyneth Roberts yn wael hefyd ond mae hithau bellach yn well. Mae ein meddyliau gyda Mr Gwilym Evans, sy'n dal yn yr ysbyty, ac nid yw Mrs E. Williams, 7 Stryd Newydd, Miss L. Davies, Noddfa, na Mrs E. Morris, Hafan wedi bod yn dda iawn yn ddiweddar.

CLWB IEUENCTID — Mae'r Clwb Ieuencid wedi dechrau ar dymor newydd. Yr ysgrifennydd eleni yw Mr Melfyn Roberts, Bod Gwynedd a Mr Allan Wyn Jones, Bod Elan yw'r Trysorydd. Mae'r arweinydd a'r aelodau wrthi'n trefnu rhaglen y gaeaf. Ceir mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf. Estynnir croeso i ymuno i rai fydd yn cyrraedd 13 oed cyn diwedd Mawrth.

CYRRAEDD Y NOD — Pan roddwyd targed o £900 i Gwm-y-glo i'w codi at Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon '79, edrychais bron yn amhosibl i'w gyrraedd, yn enwedig heb ganolfan addas i gynnal gweithgareddau. Pleser felly yw cyhoeddi fod y pwyllgor o 19 aelod nid yn unig wedi casglu'r arian a nodwyd, ond hefyd £100 yn ychwanegol, ac o fewn deng mis wedi cyflwyno £1,000 i bwyllgor cyllid yr Eisteddfod. Er na fydd rhagor o weithgarwch tuag at yr Eisteddfod, bydd y gronfa yn dal ar agor, gan fod tua 9 mis o amser cyn yr Ŵyl, ac os oes rhywun yn dymuno rhoi cyfraniad bydd unrhyw aelod o'r pwyllgor yn barod iawn i dderbyn a throsglwyddo eich rhodd. Dymuna'r pwyllgor lleol ddiolch yn ddiffuant i bawb a'i cefn- ogodd mewn unrhyw fodd, yng Nghwm-y-glo a thu allan. Penderfynodd y pwyllgor diwyd hwn beidio â chwalu, gan y teimlai fod llawer o waith i'w wneud yn yr ardal, a'r bwriad yw cario ymlaen gyda'r Gyrfaoedd Chwist a.y.y.b. er helpu

casglu offer ar gyfer y ganolfan gym- deithasol y gobeithir gweld ei chwblhau eleni, a hefyd i gyfrannu hyd y gallont at achosion teulwng eraill. Fel 'Clwb y Graig' y gobeithiant weithredu o hyn allan.

MARWOLAETHAU

MRS. LAURA SINCLAIR — Diwedd Medi, bu farw Mrs Laura (Nora) Sinclair, 8 Dolafon yn 56 oed. Un o blant y Cwm oedd Nora, merch dawel a wynebodd gystudd gyda gwroldeb. Gofidiwn gyda llu o'i ffrindiau yn ffatri ddillad y Glyn, Llanberis inni ei cholli mor gynnar. Mae cydymdeimlad dwysaf yr ardal gyda'i phriod Mr Tom Sinclair, ei meibion a'i merched yng nghyfraith, Mr a Mrs David Sinclair, Mr a Mrs Glyn Sinclair a'i meibion ieuengaf, Roland a Wyn; hefyd ei chwiorydd a'i brodyr a'r teulu cyfan yn y brofedigaeth fawr hon.

'Roedd yn aelod o Eglwys Sant Gabriel a gweinyddwyd yn ei hangladd ym mynwent Llanrug gan y Rheithor y Parch. Gwynfor Williams.

MRS. ANNIE CATRIN WILLIAMS — Gyda chwithdod y clywsom am farw Mrs Annie Catrin Williams yng nghartref ei merch a'i mab yng nghyfraith yn Lerpwl, lle bu'n byw yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 87 oed, daeth yma i fyw ar achlysur ei phriodas a'r diweddar Hugh Parry Williams, a bu eu cartref, Bodiastyn, yn siop barbwr am flynyddoedd lawer. O gofio hiwdd am ffrathineb "Rhen Bâr", hawdd coelio mai dyma gyrchfan y pentref, a byddai Mrs Williams wrth ei bodd yn ymuno yn y miri. 'Roedd yn wraig gymwynasgar dros ben, a bu'n aelod ffyddlon a gweithgar yng nghapel y Tabernacl. Ni cholodd ei diddordeb yn y fro, ac mae'r Eco yn ddyledus iddi am hanes hen siopau a thafarndai Cwm-y-glo.

Gedy ddwy o ferched a meibion yng nghyfraith, Mr a Mrs J. Lewis, Lerpwl, a Mr a Mrs B. Wilcox o'r Wirral, ac un mab a merch yng nghyfraith, Mr a Mrs Cecil Williams, Bro Rhyddallt. Cydymdeimlwn â hwy yn eu profedigaeth o golli mam a'nain a hen nain annwyl, ac â'r teulu i gyd. Wedi gwasanaeth yn amosgfa Lerpwl dygwyd ei llwch i fedd ei phriod yn Llanrug, pryd y cafwyd gwasanaeth syml gan ddau o flaenoriaid y Tabernacl — Mr Llew Hughes, Hyfrydle a Mr Hugh Jones, Seiont House.

UNDEB Y MAMAU — Cyfarfu'r aelodau yn Ysgol Cwm-y-glo ar Hydref 10. Agorwyd y cyfarfod gyda gwasanaeth byr o dan arweiniad y Rheithor. Y wraig wadd oedd Mrs J. Ifor Rees, priod Deon Bangor a rhoes sgwrs ddiddorol ar yr Eglwys Gadeiriol a'i pherthynas â'r plwyfi. Diolchwyd i Mrs Rees gan Mrs M.E. Hughes. Darparwyd lluniaueth ysgafn gan Mrs Watkins, Dolwen a Mrs Gick, Mairlys a diolchwyd iddynt gan Mrs D. Pierce, Glan'rafon. Y cyfeilydd oedd Miss Ceridwen Hughes.

GWYL Y CYNHAFAF — Cynhaliwyd gwasanaethau Diolchgarwch am y Cynhaef yn Eglwys Sant Gabriel yn ddiweddar. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaidd fore Sul gan y Rheithor. Cymerwyd rhan gan holl blant yr Ysgol Sul yng ngwasanaeth y Plant ac arwein- iwyd y gwasanaeth gan Mrs H. Orritt. Dysgwyd y plant gan Mrs J.E. Watkins, Mrs Orritt a Mrs Owen, Isfryn. Rhod- gwobrau am ffyddlondeb i'r Ysgol Sul i amryw o'r plant a rhoes y Rheithor anerchiad byr iddynt. Y Parch. Ganon R.D. Roberts, Llwyngwril oedd y pregethwr gwadd. Arweinwyd gwas- anaeth nos Lun gan y Rheithor a phregethwyd gan y Parch. Williams Jones, Rheithor Llanystumdwy. Miss Ceridwen Hughes oedd yr organydd a chanwyd yr organ gan Judith Orritt, Moranedd yng ngwasanaeth y plant.



NANT PERIS

CYWIRIAD — Yn y rhifyn diwethaf, wrth sôn am Mrs Marion Williams yn codi arian at Gronfa Ymchwil Leuk- aemia gwnethum gamgymeriad wrth ddweud mai Ysbyty Môn ac Arfon a dderbyniodd y siec o £1000. Ysbyty Plant Alder Hey, Lerpwl a dderbyniodd yr arian. Ymddiheuraf am y llithriad. (T.J. Roberts)

TRI CYNTAF — Ar y dydd cyntaf o'r wythnos, a'r dydd cyntaf o fis Hydref, daeth y plentyn cyntaf i aelwyd Mr a Mrs Keith Roberts yn ardal Llanrug. Mae Mrs Roberts o'r Nant, Croeso mawr i Beverley Ann, a llongyfarchion i Keith a Hefina. Llongyfarchion hefyd i Nain Roberts Llanrug a thaid a'nain Bronallt, er eu bod yn gyfarwydd iawn â'r teitl bellach. Pob dymuniad da a phob bendith i'r teulu bach.

CYFARCHION PEN-BLWYDD — i Mr William H. Davies, Cae Gwyn ar gyrraedd ei 91 mlwydd oed ar Hydref 18. Da gennym ei weld mor heini ac mor ifanc. Dymunwn iddo lawer blwyddyn eto o iechyd a hoen i fynd a dod yn ein plith.

CROESO ADREF — i'n cyfaill Mr J.W. Ellis (Perisfab), 8 Glanrafon ar ôl treulio peth amser yn Ysbyty Môn ac Arfon. Da gennym ei weld yn gwella mor dda ar ôl ei driniaeth, a dymunwn iddo yntau lwyr adferiad i'w gynefin iechyd.

LLONGYFARCHIADAU i'n cyfaill ieuanc Mr Tom E. Thomas, Bron Wyddfa ar ei benodiad yn ddirprwy- bennaeth yng Nghanolfan Llanallgo, Moelfre, Ynys Môn. Canolfan breswyl yw hon i blant gydag anawsterau cym- deithasol. Dymunwn fel ardal y gorau i Tom yn ei swydd bwysig, a chryn dipyn o gyfrifoldeb ynglŷn â hi. Pob bendith a llwyddiant iddo yn y dyfodol.

LLONGYFARCHION hefyd i Mr Tony Adams, mab yng nghyfraith Mr a Mrs O.W. Humphreys, Gwastadnant. Deallwn fod Tony wedi ei dderbyn yn aelod o'r Stock Exchange, peth pur anghyffredin i un mor ieuanc. Wrth ddymuno'n dda iddo, anfonwn ein cofion cynhesaf at ei briod, Helen, a'u mab bychan, Gareth James. Pob bendith.

GWYL DDIOLCHGARWCH — Dydd Llun, Hydref 15 yn ol yr arfer cynhal- iwyd yr Ŵyl Ddiolchgarwch yn Eglwys Peris Sant ac yn Rehoboth. Da gennym ddweud fod y cynullïadau yn ystod y dydd yn dal yn dda er gwaethaf y trai a'r difrawder.

Gwasanaethwyd yn Eglwys Peris Sant gan : Y Parch. Ganon Alun Jones (gwasanaeth Cymun yn y bore); y Parch. T. Bailey Hughes, Trawsfynydd (y prawn); y Parch. D. Noel Jones, Llandegfan, Mon (yr hwyr).

Yn Rehoboth cynhaliwyd tri chyfarfod gweddi. Dechreuwyd oedfa'r bore gan ein gweinidog, y Parch. Marcus W. Robinson, B.D., sydd bellach wedi ei ordeinio a'i sefydlu i gyflawn waith y weinidogaeth. Yn dilyn, cymerwyd rhan gan rai o'r plant, y bobl ifanc, y chwiorydd, a'r brodyr, a threuliwyd y dydd i ddiolch. Yr oedd pob cyfarfod yn rannus a naws hyfryd i'w deimlo yn yr addoliad. Mawr hyderwn na fydd i ni fodloni ar ein diwrnod o ddiolch. 'Boed ein bywyd oll yn ddiolch' fyddo'n har- wyddair i'r dyfodol.

CWYNO — Bu eraill yn y pentref yn cwyno'n ddiweddar, sef Mrs S. Edwards, 3 Bro Glyder, Mrs F. Will- iams, Terfyn, a Mr Gwilym S. Jones, Gwynant. Dymunwn iddynt oll gael llwyr wellhad yn fuan.

**GORS BACH
PANEL
BEATING
SERVICE
Cwm-y-glo**

Ffôn : LLANBERIS 814

**GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR**



O'R GENEDLAETHOL

CÔR MAWR

Bydd Côr o fil o leisiau yn swyno'r dref yng Nghastell Caernarfon fis Mehefin nesaf fel rhan o'r ymgyrch fawr i godi arian at Eisteddfod Caernarfon. Trefnir y Cyngerdd gan H.R. Promotions o Sussex a disgwylir y bydd yno gerddorfa neu organ fawr hefyd. Un o brif gyfarwyddwyr y cwmni yw Mr. Elwyn Roberts, brodor o Dyffryn Nantlle'n wreiddiol ac aelod o deulu nodedig eu diddordeb mewn canu corawl yn y cylch. Y cwmni hwn hefyd sy'n gyfrifol am drefnu'r Cyngerdd Mil o Leisiau a gynhelir yn yr Albert Hall yn Llundain bob blwyddyn.

Eisoes sicrhawyd caniatâd Adran Henebion y Swyddfa Gymreig a chefnogaeth leol. Bydd y Cyngerdd yn para am oddeutu dwy awr ac mae'n siŵr o fod yn atyniad mawr i'r ymwelwyr yn y cylch yn ogystal ag i'r trigolion lleol.

GWNEWCH YN SAFF O SÊT

Y rhai hynny a gaiff fargen yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon yw'r rhai sy'n prynu tocyn wythnos, yn ôl Mr Derfel Gruffydd, yr Ysgrifennydd Tocynnau.

Ac ymddengys bod llawer wedi sylweddoli hynny eisoes oherwydd dim ond 660 o docynnau wythnosol seddi cadw dosbarth cyntaf sydd ar ôl erbyn hyn ac ar Fedi 30 derbyniwyd £32,000 o arian am docynnau.

Wrth gwrs, y mae dros hanner y seddi cadw ar gyfer dydd Mawrth a dydd Iau wedi eu gwerthu.

"Yr hyn y dylai Eisteddfodwyr ei gofio," meddai Mr. Gruffydd, "yw y cyst £33 ichwi o brynu tocynnau'n unigol am wythnos ond o brynu un tocyn ar gyfer yr wythnos nid yw ond £24 ac 'rwyf am dynnu sylw at y fargen sylweddol hon. Tocyn wythnosol ail ddosbarth yw £18."

Daeth dau gais o bellafoedd byd — un o Galiffornia a'r llall o Mecsico Newydd.

Manylion pellach: Derfel Gruffydd, Llwyn, Lôn Ddewi, Caernarfon. Ffôn: C'fon 5254.

YN EISIAU: GWELYAU A THAI

Y mae chwilio mawr am welyau a thai yng Nghaernarfon y dyddiau hyn.

Dywedodd Miss Phyllis Ellis, Cadeirydd Pwyllgor Llety yr Eisteddfod Genedlaethol yn y dref iddi dderbyn 37 o geisiadau am ystafelloedd sengl "o fewn tafliad carreg i'r maes" a 42 o geisiadau gan bobl sydd eisau rhentu tŷ dros wythnos yr Eisteddfod fis Awst nesaf.

"Y mae 26 o geisiadau gan bobl sydd eisau hurio carafan," hefyd meddai.

Hyd yn hyn derbyniodd y Pwyllgor 247 o geisiadau i gyd a chafwyd lle i 54 o'r rheini yn lleol a chaiff 79 wely yn Neuadd John Morris Jones, Coleg y Brifysgol, Bangor.

Gall unrhyw un sydd ganddo wely, ystafell, carafan neu dŷ i'w osod yn ystod wythnos yr Eisteddfod gysylltu â Swyddfa'r Eisteddfod yng Nghaernarfon. (5215);

GWERTH Y GEINIÖG

Y mae dros £17,000 i'w hennill yn wobrau yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon y flwyddyn nesaf gyda £5,591 o'r arian yn yr Adran Gerdd a £4,775 yn yr Adran Gelf a Chrefft.

Yn yr Adran Lenyddol £2,735 sydd i'w hennill a £1,650 yn yr Adran Ddrama.

Ond, rhybuddiodd Trefnydd yr Eisteddfod, Mr. John Roberts, er mor dda yr ymddengys y gwobrau nad ydynt mewn gwirionedd gystal ag yr hoffai ef eu gweld.

"Mewn gwirionedd fu yna fawr o newid yn y gwobrau dros y pum mlynedd ddiwethaf ac yn sicr y mae chwyddiant ymhell ar y blaen inni. Wedi'r cyfan beth yw deg punt heddiw o gymharu â deng mlynedd yn ôl?" meddai.

"Y mae hyn, wrth gwrs, yn tanlinellu'r ffaith, gymaint y mae'r Steddfod angen cymorth ariannol, o bob cyfeiriad. Pan yw pobl yn clywed am y Steddfod yn derbyn sic o'r lle yma a'r lle arall teueddant i feddwl fod popeth yn iawn ond nid yw hynny'n wir o gwbl."

Y gwobrau yn yr Adrannau eraill yw: Adrodd, £257; Alawon Gwerin, £167 a £120 o grantiau i gystadleuwyr; Cerdd Dant, £480; Symudiad, £280; Gwyddoniaeth a Thechnoleg, £905; Ambiwlans, £168; Dysgwyr, £180.

Mr David L. Hughes, Y llywydd oedd Mr Eirwyn Morris, Bangor a chyflwynodd rodd anrhydeddus i gyllid y Gymdeithas. Talwyd y diolchiadau gan Mrs Betty Peris Roberts.

CYNGERDD Y SEINDORF — Yn y ganolfan nos Wener, Hydref 6 cafwyd cyngerdd dan ofal y Seindorf gyda Mr Eric Foster yn arwain. Cyflwynwyd yr eitemau gan Mr John Emrys Morris, aelod o'r seindorf a chyn-arweinydd. Cafwyd eitemau cerddorol gan Myrddin a Rosalind. Mwynhawyd y cyngerdd, a oedd yn ddi-dâl, yn fawr. Talwyd y diolchiadau gan Mr O.R. Williams a Mr Rennell Williams.

DIOLCHIADAU — Dymuna Mr a Mrs Roberts, Ysgubor, ddiolch o galon i berthnasau, cyfeillion a chymdogion am eu caredigrwydd tuag at Arfon tra bu yn yr ysbyty, ac ar ôl dod adref.

GWYL DDIOLCHGARWCH — Yn ôl yr arfer, cynhaliwyd gwasanaethau o ddiolchgarwch am y cynhaeaf yn eglwys i'r ardal dros y pen-wythnos Hydref 15 a 17.

WAUNFAWR

MERCHED Y WAWR — Da oedd gweld cynifer wedi ymgynnull i gyfarfod cyntaf y tymor, lle cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Mr. W.E. Thomas, Weirglodd Fawr. Siaradodd am ei waith yn y BBC ac esboniodd sut y cynhyrchir rhaglenni radio a theledu.

Enillydd y raffl oedd Mrs Glenys Jones, Rhandir Mwyn.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 26 am 7.30 o'r gloch. Y gŵr gwadd fydd Mr W.V.Jones, Pontllyfni, a bydd yn sôn am ei daith i Daiwan.

CYDYMDEIMLAD — Estynnwn ein cydymdeimlad tuag at Mr W.T.Owen, Tref Eilian ar golli ei frawd a Mrs Slaven hefyd o Dref Eilian ar golli ei brawd.

O'R YSBYTY — Croeso adre' i Mrs A. Evans, Glasfryn a Mr Griffiths, Bronallt.

LLONGYFARCHIADAU — i Ronald Hughes, Ael y Bryn ar ei lwyddiant yng Ngholeg Politechnig Lerpwl; i Elizabeth Owen, Tref Eilian ar lwyddo yn ei harholiadau nysio ym Mangor, a'i chwaer Gwenno ar gael gwaith yn Swyddfa'r Llywodraeth yng Nghaernarfon.

DYWEDDIO — Llongyfarchiadau i Rhodri Prys Jones, 15 Tŷ Hen ar ei ddyweddian gyda Sylvia Roberts o Nant Bwlch yr Heyrn, Llanrwst. Bydd y ddau'n priodi ym mis Gorffennaf ac yn cartrefu yn y Waunfawr.

YN EISIAU — Cartref i Arfon.

SYMUD Tŷ — Ar ôl cartrefu yn 11 Bryn Golau am dros 24 mlynedd, mae Mrs K.M.Jones wedi symud i Gorwel. Dymuna ei chydweithwyr a'i chyfeillion yn Swyddfeydd Cyngor Sir Gwynedd, Maesincla, Caernarfon bob hapusrwydd i (Kate) yn ei chartref

newydd.

Hefyd symudodd Mr a Mrs Rol Williams i Bant y Waun.

ENILLWYR CLWB CANT — (1) Dafydd Glyn Williams, Coed Gwydryn. (2) Gareth Wyn Owen, Glyn Ceris. (3) Edgar Owen.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref yn yr ysgol o dan lywyddiaeth Mrs Katie Jones. Y siaradwr gwadd oedd Mr T. E. Griffith, Pen-y-groes a soniodd am ei wyliau. Diolchwyd iddo gan Mrs Alice Johnstone. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 2.

EISTEDDFOD ARDAL Y WAUN — Cofiwch am y 'Steddfod a gynhelir ar Dachwedd 11 yng Nghapel Croes-y-waun. Rhaid i'r cyfansoddiadau llenyddol a'r arlunio, y coginio a'r gwaith llaw fod yn nwylo'r Ysgrifennydd, Mrs Carys Jackson, Tŷ Ni, cyn gynted ag y bo modd.

NEWYDDION ECO'R WYDDFA — Os gwyddoch am newyddion am rywun neu rywbeth, rhwch wybod i Eco'r Wyddfa mewn da bryd bob mis drwy alw heibio Llidiart Wen neu ffonio 201. Gobeithio hefyd y bydd ysgrifenyddion y gwahanol gymdeithasau yn dod â newyddion i'r Eco hefyd.

PAIS — Os am gopi o'r cylchgrawn Cymraeg newydd i ferched, — Pais, cysylltwch â Mrs Irene Roberts, Pant Teg, y Waunfawr.

YMDDIHEURIADAU — i Iorwerth Williams, Heli. Rhoddwyd ei enw a'i gyfeiriad yn anghywir yn rhifyn Medi o'r Eco.

DIOLCHGARWCH — Cafwyd cyfarfodydd Diolchgarwch llwyddiannus yn y capeli a'r eglwys.

NID Y 'GRAND CANYON'



Ond llun diweddar o ben Nant o Lyn Peris

DINORWIG

CROESO ADREF — Da gennym groesawu adref Arfon Roberts, Ysgubor, ar ôl bod am gyfnod yn Ysbyty Walton. Gwellhad buan iddo ef ac i'r cleifion eraill yn yr ardal.

YN YR YSBYTY — Ein cofion cynnes at Mr Hugh L. Jones, 7 Bro Elidir, sydd yn Ysbyty Llanelwy yn derbyn triniaeth lawfeddygol.

DYMUNO'N DDA — Dymunir gwellhad buan i Mrs Annie Jones, 5 Maes Eilian a Mr Eirwyn Fleming, 1 Maes Eilian ar ôl iddynt fod mewn ysbytai yn ddiweddar.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL

UNDEBOL — Nos Iau, Hydref 12 bu cyfarfod agoriadol y gymdeithas yn y ganolfan. Cymerwyd rhan gan barti Rhianedd Môn dan arweiniad Morfudd Maesaleg. Cyflwynwyd y parti gan

Gwesty Dolbadarn

Tŷ

Rhydd-

Feddiar

Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog

Aneuryn

Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS

NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd

CANOLFAN DRECIO

Holwch am ein

telerau rhesymol



Y Cadfridog Syr Hugh Rowlands VC., KCB

DYDD IAU y 5ed o Fai 1978, agorwyd amgueddfa gan Dywysog Cymru yng Nghastell Caerdydd i Gatradd Gymreig (24th/41 Foot). Un o ganolbwyntiau'r amgueddfa yw creiriau y Cadfridog Syr Hugh Rowlands, VCKCB, a oedd, fel y gŵyr llawer ohonoch, yn enedigol o Lanrug ac wedi ei eni a'i fagu ym Mhlas Tirion. Y mae'n drist fod y gŵr hwn yn awr wedi ei anghofio yn Llanrug, ac yntau unwaith yn arwr lleol. Pan ddychwelodd o'r Crimea yn 1856, tybiai'r wasg fod rhyw 5,000 o bobol yng nghastell Caernarfon i'w weld yn derbyn Cleddyf Anrhydedd a dalwyd amdano gan bobol yr ardal (y mae'r cleddyf hwn yn un o'r eitemau sydd i'w gweld yng Nghaerdydd).

Ganwyd Hugh Rowlands ar Fai 6ed, 1828 yn ail fab John ac Elizabeth Rowlands, o deulu hir-sefylledig yn yr ardal. Yr oedd yn siarad Cymraeg ac addysgwyd ef yn Ysgol Ramadeg Biwmares. Pan yn 21ain prynodd y gradd o Ail is gaptennyn y Gatradd Gymreig. Erbyn iddo weld ei frwydro cyntaf, ym Mrwydr Alma, yn y Crimea, yn 1854, yr oedd yn Gapten ar Fintai y Grenadier.

Yn Hydref 1854, gwelodd frwydro eto yn yr ymryson a elwir Inkerman Bach ond ar Ragfyr y 5ed 1854, y cafodd enwogrwydd trwy'r fyddin fel "y gŵr a gychwynnodd Frwydr Inkerman". Ar doriad dydd y diwrnod hwnnw arweiniodd ei gwmni, a oedd newydd gymryd drosodd y gwarchod blaenaf ar Ucheldir Inkerman. Yn fuan ar ôl cymryd eu safle, ymosodwyd arnynt gan garfan fawr o Rwsiaid (amcangyfrifiad swyddogol yw dros 3,000) ac ataliwyd hwy yn ddigon hir gan ei garfan fach ef o 53 i weddill y Fyddin Brydeinig i ffurfio i frwydro — cyfnod o bron i hanner awr. Yn ddiweddarach yn y frwydr gwelodd Hugh Rowlands Swyddog y Dydd, Cyrnol Haly, yn cael ei anafu a'i gymryd yn garcharor gan y Rwsiaid. Gyda dau flywr cyffredin, rhuthrodd ymlaen i'w gynorthwyo a llwyddodd i'w achub er iddo ef gael ei anafu yn ddirfawr yn ei fraich. Am ei ddewrder yn ystod y frwydr cafodd Hugh Rowlands y Victoria Cross. Ar Fedi'r 8ed,

CWM-Y-GLO

MERCHED Y WAWR — Nosen 'Crair a Thrysor' a drefnwyd ar gyfer y gangen leol am Hydref a chafwyd cyfarfod hynod o lwyddiannus a diddorol o dan lywyddiaeth yr is-lywydd, Miss Mat Pritchard yn absenoldeb anorod y llywydd Mrs Lowri Prys Williams.

Daeth pob aelod â rhywbeth a drysorai am ei fod yn dwyn ar gof yr amser a fu neu ryw amgylchiad neu gymeriad arbennig.

Siaradodd pob aelod rywbeth am gefndir ei thrysor.

Swynwyd pawb gan yr amrywiaeth a ddangoswyd a gobeithir trefnu noson debyg eto yn y dyfodol agos.

Mrs Eluned Hughes a Mrs Verna Jones oedd y gwestwraigedd a rhoddwyd gwobr y raffl a enillwyd gan Mrs E. Hughes gan Mrs Jones.

Etholwyd Mrs. Margaret Williams a Mrs Iris Rowlands i gynrychioli'r gangen yn Aberystwyth.

Diolchwyd i bawb gan Miss Mat Pritchard. Y wraig wadd y mis nesaf yw Mrs J. Owen, Penrhosgarnedd a fydd yn rhoi sgwrs ar grefftiau Uganda.

Carwn atgoffa'r aelodau am yr arddangosfa a gynhelir yng Ngholeg Technegol Bangor am 7.30 Hydref 31 o dan nawdd y Bwrdd Marchnata Tatws.

1855, arweiniodd ymosodiad olaf y Prydeinwyr ar Redan Fawr lle y cafodd ei anafu eto, ac ychwanegodd at ei fri. Ar ôl ennill Sebastopol cafodd ei ddyrchafu yn Brefet Uchgapten, a threuliodd amser fel Uchgapten Tref Sebastopol. Ar ddiwedd y rhyfel gwnaed ef yn Farchog y Legion d'Honor gan Napoleon III a rhoddwyd iddo'r teitl Twrciaidd o Farchog y Medjidie (5ed Dosbarth).



Yng nghyfnod heddwch treuliodd Hugh Rowlands amser mewn nifer o safleoedd gartref a thramor ac yn 1865, moriodd i'r India am y tro cyntaf a'r flwyddyn olynol cymerodd arweiniad y Gatradd Gymreig. Yn 1867, priododd Isabella Jane Barrow, wyres William Griffiths, Bodegroes, Pwllheli a rhoddodd iddo ddau o blant sef Violet a Hugh. Yn 1875, newidiodd ei gatradd a chymryd arweiniad y 34th Foot, a parhaodd ei wasanaeth yn India. Yn 1878, gwirfoddolodd i wasanaethu yn Ne Affrica lle y gwelodd wasanaeth yn erbyn y BaPedi, Y Zulus a'r Boers. Tra yno cafodd y swydd o Arweinydd y Transvaal a gwnaed ef yn Ynad Heddwch y diriogaeth.

Ar ôl diwedd Rhyfel y Zulu dychwelodd yn ôl adref a chafodd groeso mawr eto gan bobol Sir Gaernarfon. Nid arhosodd yn hir ym Mhrydain ac erbyn 1881, yr oedd yn ôl yn



GO DDA POBL Y CWM!

Dyma aelodau'r pwyllgor sydd wedi llywio gweithgareddau Cwm-y-glo ar gyfer Cronfa Eisteddfod Genedlaethol 1979. Maent i'w llongyfarch, nid yn unig ar gyrraedd eu nod o £900, ond hefyd am gasglu £100 ychwanegol. Yn sefyll, o'r chwith i'r dde: Mr E. Williams, Mrs A. Jones, Mrs R. Casey, Mrs P. Rowlands, Miss N. Rowlands, Mrs Orritt, Mrs J. Hughes, Miss L. Hughes, Mr. R. Rowlands, Yn eistedd: Mrs G. Chick, Mr H. Williams, Mrs M. Williams, Mr L. Hughes, Mrs K. Watkins, Mrs. E. Hughes, Mrs. N. Rowlands. Nid oedd Mrs J. Rowlands, Mrs M. Williams a Mr D. Price yn bresennol pan dynnwyd y llun.

India yn arwain Brigâd o Fyddin Bengal. Yn ddiweddarach, fel Uchgapten-Gadfridog, arweiniodd ran Bungalore o Fyddin Madras, ac am amser byr, arweiniodd Fyddin Madras. Yn 1889, dychwelodd i Brydain, a gwnaed ef yn Isgapten Tŵr Llundain yn 1893. Yn 1894 cymerodd ei arweiniad olaf, yn awr yn cymryd y swydd o Gadfridog, sef Prif Arweinydd yr Alban, swydd a fu ynddi hyd at ei ymneilltuad. Ar ôl hyn, dychwelodd i Blastirion, ymsefydlodd i fywyd yswain gwladol. Yn 1897, penodwyd ef yn Gynol Anrhydeddus Gatradd Dug Wellington, ac yn 1898, gwnaed ef yn Farchog Militaraidd Urdd y Bath. Gweithiodd yn galed dros Llanrug yn ei flynyddoedd olaf a gwnaeth lawer i bobol yr ardal. Talodd am gyfran helaeth o gost adnewyddu Eglwys Sant Mihangel, ac yn amal gwnâi ginio i gymdeithasau Llanrug, fel Clwb y Cleifion. Penodwyd ef yn Ynad Heddwch Caernarfon a Dirprwy Isgapten y Sir. Bu farw ar Awst y 1af 1909, a chladdwyd ef ym mynwent Llanrug gyda holl anrhydeddau militaraidd. Y mae'n ddiddorol nodi fod ei fedd yn cael ei gadw'n daclus er nad oes

CEUNANT

YN YR YSBYTY — Dymunwn wellhad buan i Mrs Williams, Tŷ Isaf sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri Caernarfon.

aelodau o'i deulu yn byw yn yr ardal yn awr (bu farw ei fab yn gwasanaethu gyda'r K.A.R.* yn Somaliland yn 1903). Y bedd yw ei unig gofolog yn Ngogledd Cymru. W.A. Williams, 2 Heol Dafydd, Wrecsam, Clwyd.

O.N. Hoffai Mr. Williams wybod mwy o hanes H.R. ar ôl iddo ymddeol a chartrefu yn Llanrug — os gŵyr rhywun — gadewch iddo wybod.

*King's African Rifles.

ARCHEBWCH PAIS!

CYLCHGRAWN CYFFROUS NEWYDD I FERCHED CYMRU

Dymunaf dderbyn 8 rhifyn o Pais (Awst '78 i Mawrth '79) am £3.20 (cludiad am ddim).

Enw.....

(llythrennau bras)

Cyfeiriad.....

Dychwelwch i: Ysgrifennydd Tanysgrifio (Pais), Elernion, 24 Caeau Gleision, Rhiwlas, Bangor.

Sieciau ac Archebion Post yn daladwy i: 'Cyfrin Cylchgrawn Pais'

PLAS TANYBWLCH

Canolfan Astudiaeth
Parc Cenedlaethol Eryri

CWRS PENWYTHNOS "Y CYMRU A'R CELTIAID"

TACHWEDD 3 - 5

Cwrs i edrych i mewn i'r dystiolaeth am y dras Geltaidd honedig.

Darlithwyr:

Syr Idris Foster,
Yr Athro Bedwyr Lewis Jones
ac eraill.

Taith i safleoedd arbennig

Manylion pellach gan
y Pennaeth, Plas Tanybwlich,
Maentwrog, Blaenau Ffestiniog
Gwynedd.
(Maentwrog 324/334)

SEIAT EFENGYLAIDD LLANBERIS

Gwahoddir chwi yn gynnes yn Enw Yr Arglwydd
Iesu Grist, i'r cyfarfod pregethu canlynol, a gynhelir yn
Festri Capel Nant Padarn, Llanberis
am 7.00 p.m. bob nos Fercher.

Tachwedd 1 John Pritchard, Llanberis
Tachwedd 8 Arfon Wyn Humffreys, Bodffordd
Tachwedd 15 Y Parch. J. Elwyn Davies, Pen-y-bont
ar ogwr

Tachwedd 22 Y Parch. John West, Y Bala
Tachwedd 29 Meirion Thomas, Bangor

LLYTHYR AGORED AT BOB COPA WALLTOG (a moel) YN ARDAL LLANRUG:

BŪM mewn pwyllgor yn ddiweddar i drafod gwahanol weithgareddau i'w cynnal yn ystod tymor y gaeaf yng nghylch Llanrug. Cafwyd syniadau gwreiddiol a diddorol, ond yn anffodus nid oes lle addas yn ardal Llanrug i gynnal amryw o'r gwahanol gyfarfodydd a awgrymwyd. Diffyg mawr mewn pentref sydd bellach yn tyfu'n gyflym, ac a bery i ddatblygu yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Cyhoeddwyd llythyr yn rhifyn Mai o'r *Eco* gan 'Un o blant y Fro' yn tynnu sylw at yr holl weithgareddau amrywiol sy'n cael eu cynnal yn Llanrug trwy gydol y flwyddyn. O fynd ati i restru'r cyfan, y syndod yw fod cymaint o wahanol weithgareddau'n cael eu cynnal — gweithgareddau a ddylai apelio at bron bob carfan o'r gymdeithas; o'r ifanc i'r hen, ac o'r rhai sydd am ystwytho'u cyrff i'r rhai sydd am ymarfer eu meddyliau.

Meddyliwch mewn difrif calon am y *menu* sydd wedi ei gosod o'ch blaen ar gyfer y gaeaf: dosbarthiadau Addysg y Gweithwyr yn yr Ysgol Gynradd, clwb ieu-entid yn Ysgol Bryn'refail, Blodau'r Grug yn y Sefydliad Coffa, gwledd o gôls ar y cae pêldroed (tîm hŷn a thîm iau), dwy gymdeithas lenyddol (yng nghapel Pontrhythallt a'r capel Mawr), clwb codi pwysau, cyfarfodydd Merched y Wawr, ac yn y blaen.

Y cywilydd mawr mewn pentref fel Llanrug yw fod yr oll o'r gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal ar wasgar — mewn festrioedd capeli, ystafelloedd ysgolion, y Sefydliad Coffa, ac ambell i le llai cyffyrddus na hynny! Mae amryw o'r manau cyfarfod hyn yn gwbl anaddas i gynnal bron unrhyw fath o gyfarfod, ond peidiwch â meddwl mai difrio festrioedd capeli ac ystafelloedd y Sefydliad Coffa yr wyf; diolch amdanynt, a da'u cael er gwaethaf eu cyfyngiadau (meddyliwch am geisio cynnal cyngerdd mawreddog yn y Sefydliad Coffa neu ddisco 'Saturday Night Fever' mewn festri capel!) Chwerthinllyd? Wrth gwrs, ond y gwir digalon i'r rhai sydd yn ceisio cynnal cyngerdd mawreddog neu ddisco.

Ond mi glywaf ambell un yn dweud fod Neuadd Ysgol Bryn'refail ar gael. Wrth gwrs, ond mae'r Neuadd honno ar gael i ardal eangach na Llanrug yn unig, ac ni ellid disgwyl i ardal Llanrug gael defnydd ohoni bob noson o'r wythnos. Yn wir, nid neuadd yw unig angen Llanrug ond canolfan yn cynnwys neuadd fel rhan

ohoni. Mae angen Canolfan Gymdeithasol ar Lanrug; Canolfan a fyddai'n ganolbwynt i holl weithgareddau'r pentref, ac nid yn ystod nosweithiau'r gaeaf yn unig, ond trwy gydol y flwyddyn, ddydd a nos.

Y neuadd fyddai calon y Canolfan, wrth gwrs, lle gellid cynnal cyngherddau, dramâu, twmpathau dawns, disco, eisteddfod bro, ffair werthu, cinio, gyrfa chwist, partion a gemau fel badminton a tennis bwrdd. O amgylch y galon hon byddai angen ystafelloedd newid, cegin, ystafelloedd pwyllgora, (gan gynnwys swyddfa i'r Cyngor Cymdeithas), toiledau, ac o bosibl, ystafell gyffredin a fyddai'n agored drwy'r dydd i unrhyw un fynd iddi i eistedd a chael sgwrs, smôc, paned neu i ddarllen.

Uchelgeisiol? Ydi, ond pam lai? Onid ydym yn haeddu'r gorau yma?

Byddai llawer o broblemau'n naturiol, yn enwedig dwy: darn o dir i adeiladu'r Ganolfan, ac arian i dalu'r bil.

A feiddiaf awgrymu fod lle ar gael? Mae llain o dir yng nghanol Llanrug a fu'n ddolur llygad ers peth amser bellach; y rhan honno sydd rhwng tai Nant y Glyn a Ffordd Llanberis. Onid oes bosibl rhywsut i wneud defnydd buddiol o'r tir hwn, a hynny er lles y pentref? Un fantais o gael Canolfan yma yw y byddai ar drothwy cae'r plwyf, a gellid cynnal gweithgareddau awyr agored arno'n yr haf (ar ôl cryn dipyn o waith tacluso wrth gwrs).

Ac yn olaf, yr arian. Sawl mil o bunnau fyddai angen? Digon i dorri calon llawer un cyn meddwl dechrau. Ond cofier fod grantiau i'w cael gan wahanol gyrff cyhoeddus, ac y mae'n sicr fod digon o wirfoddolwyr yn Llanrug i roi dechrau ar y gwaith.

Ie, "diwedd y gân yw'r geiniog"; ond onid yw'n hen bryd i ni yn Llanrug feddwl am *gychwyn* y canu?

Dafydd Wh. Thomas.

GWEITHGAREDD HEDDIW



Plismon, delfar, joci, ficer, postmon, peldroediwr. Y cwbl o Gangen Merched y Wawr Llanrug.

Yn dilyn llythyr agored Dafydd Wh. Thomas neilltuir y dudal



Pwyllgor cyntaf Clwb yr Henoed Llanrug yn festri Capel Mawr. (Y llun oddi wrth Mrs. Owen, Trigle, Pontrhythallt).

DOSBARTHIADAU



Rhes gefn o'r chwith i'r dde: Mrs Achsah Williams, 3 Llain Gro; Miss Lily Williams, Bryn Eryr School House; Mrs Laura Grace Owen, Isallt; Mrs M.E.Pritchard, Penlle; Mrs Maggie Alice Jones, Tegfryn; Miss Annie Williams, Eilionwy. Rhes flaen o'r chwith i'r dde: Gwraig wadd; Mrs Jemima Thomas, Rhianfa; Mrs Jones, Llwyn Onn; Mrs Davies, Plastirion Terrace; Dr I. Wynne Jones, Llanberis; Nurse Closs; Mrs Lizzie Roberts, Siop Baker; Mrs Nell Williams, Bryn Awelon; Mrs Annie Jones, Penrhos; Mrs I. Wynne Jones, Llanberis.

YR ACHOS



Dosbarth Ysgol Sul Capel Mawr, Llanrug. Pa flwyddyn? Pwy yrrodd y llun i'r Eco?

YR ECO

Pam fod rhaid codi'r pris o ddeg i ddeuddeg ceiniog? Yn syn cynyddol cynhyrchu'r papur.

Ers rhai misoedd bellach bu'r Eco yn rhedeg ar golled. Bellach bil yma o bedair ffynhonnell, sef incwm hysbysebion (tua £6 Gogledd Cymru (£9 y rhifyn) ac o werthu'r papur. Gwerthir rhw hynny fod tua £255 yn dod o'r gwerthiant.

Gwelir, felly, fod y papur, o'i werthu am 10c y copi, yn rheu codi'r pris i 12 ceiniog. Mae'n ddrwg gennym fel Bwrdd Golygydd

Nid oes angen ailadrodd y ffaith fod pawb sy'n gweithio gy hamser i'r papur.

'Rydym yn ffyddiog y byddwch chi ein darllenwyr, drwy bryn

RUG

n ganol am y mis hwn i weithgareddau Llanrug ddoe a heddiw.



Cangen W.I. Llanrug ar ymweliad â ffatri lestri Josiah Wedgwood yn Stoke-on-Trent. (Llun: Mrs. Owen, Trigle).

SANT IOAN



Dosbarth Ambiwylans Llanrug 1929. Rhed gefn o'r chwith: M. Parry, H. Green, E.J. Hughes, R. Jones, D. Lewis, H. Williams, J.H. Williams, W. Jones. Canol: E. Hughes, W.T. Williams, Dr. W. Jones, H. Jones, D.S. Williams. Blaen: R. Evans, H.R. Jones.

Y ddau lun trwy garedigrwydd E. J. Hughes, Bwthyn, Llanrug. Derbyniwyd llun arall gan Mrs. H.R. Jones, Llanberis.

YN LLANRUG



Dosbarth Ysgol Sul arall yn Llanrug tua'r flwyddyn 1900. Saif Glan Rhyddallt yn ail o'r chwith yn y rhes uchaf.

YN 12 CEINIOG

iawn, oherwydd mai dyna'r unig ffordd ymarferol o dalu costau

mae'n costio tua £355 i gynhyrchu pob rhifyn. Daw'r arian i dalu'r rhifyn, cyfraniadau (tua £4), grant Cymdeithas Gelfyddydau 2,500 a 2,600 copi bob mis. Ar gost o ddeg ceiniog y copi golygai

g ar golled o bron £30 y mis. Er mwyn talu'r costau mae'n rhaid i am y codiad pris anorfod hwn.

r papur yn gwneud hynny yn hollol ddi-dâl ac yn rhoi oriau o'u

r papur yn gyson, yn parhau i gefnogi ein papur bro.

Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

MALAN JONES — Y FYDWRAIG

Cofiaf Mrs. Mary Jones, neu Malan Jones fel y gelwid hi o anwyldeb gan bawb, yn byw yn y bwthyn syml a elwid Pen Lôn (Groeslon Newydd wedi hynny), Llanrug. Tyddyn bychan oedd Pen Lôn, digon i Malan gadw buwch a mochyn drwy'r flwyddyn.

Tynnwyd yr hen fwthyn enwog i lawr ac adeiladu tŷ hardd yn y fan.

Bydwraig oedd Malan Jones. Cafodd barch brenhines gan bawb, hen ac ieuanc, tlawd a chyfoethog. Fu neb erioed yn haeddu ei pharchu yn fwy. Gwnaeth waith canmoladwy yn ei dydd. Haeddodd Malan Jones a llawer bydwraig arall goron o aur. Wrth edrych arni, hawdd y gellid dweud fel y dywedodd Mr. R. J. H. Griffith, Ysgol Llaingoch, Caergybi am y nyrs:

Ar awr anodd mae'n noddi — y truan

Trwy nos ei drueni;
Â gwên y daw a gweini,
Nid cyflog a'i hannog hi.

Dywed Dr. Kate Roberts yn ei llyfr 'Y Lôn Wen' iddi ymweld â Malan Jones ym Mhen Lôn pan oedd gwallt Malan yn olau iawn. Ni wn a oedd cysylltiad teuluol rhyngddynt.

Gwn fod Malan yn hanu o ardal Rhosgadfan. Daeth i weini i Siop Gron, Penisarwaun. Felly y trawodd ar ei phriod Dafydd Jones (chwarelwr) a byw yn ardal Llanrug i'r diwedd.

Magodd bymtheg o blant yn y bwthyn bach a chawsant fyw i oedran da. Bu hithau fyw nes cyrraedd 97.

Bu Malan Jones yn fydwraig lwyddiannus am flynyddoedd lawer. Edrychai yn hardd ac urddasol yn ei gwisg wen a phob amser yn lân. Cerddai gyda dwy ffon yn ystod ei blynnyddoedd olaf. Ei hymffrost a'i balchder mwyaf oedd na chollodd erioed fam na baban ar enedigaeth. Clywais y byddai yn rhoi pin mewn potel bob tro y genid baban a thrwy gyfrif y pinnau gwelwyd ei bod wedi derbyn oddeutu mil neu fwy o fabanod.

Daliai i fynd bob dydd wedyn am bythefnos i drin y baban a gweini ar y fam. Heblaw rhoddi ei gwasanaeth am ychydig iawn o dâl, a'i roi am ddim i deuluoedd tlawd, rhoddai Malan rodd hefyd i bob baban.

Cofiaf yn iawn am y tro olaf y bu'n gweini fel bydwraig. Derbyniodd efeilliaid (bechgyn) i Mr. a Mrs. Richard Green, Pandi. Yr oeddwn innau oddeutu deg oed ar y pryd. Galwyd un o'r bechgyn yn Gwilym Eric a'r llall yn Solomon Idris. Enw da iawn oedd Solomon i goroni llafur ffyddlon Malan Jones, ac i'n hatgoffa am ddoethineb Solomon yn penderfynu pwy oedd mam y baban pan oedd dwy fam yn ei hawlio.

Heb os, fe gafodd Malan Jones gyfoeth a doethineb Solomon gyda mamau babanod yng nghanol tlodi anhygoel y dyddiau hynny. Yr oedd Malan Jones yn 90 oed pan ymddeolodd. Heddiw buasai'n cael anrhydedd gan y Frenhines.

Bwyd plaen fyddai ar y bwrdd ym Mhen Lôn bob amser — digon



o datws wedi eu berwi trwy'u crwyn a phenwaig yn y sosban hefo nhw weithiau, bara llaeth, uwd, sican, a chig moch cartref. Clywais y byddai'n gwneud jam mwyar duon heb ddim siwgr, a hwnnw tu hwnt o flasus. Y mae hyn yn ddirlgelwch i mi, ond cefais sicrwydd ei fod yn wir.

Yr oedd yn ofnadwy yn erbyn y ddiod feddwol. 'Fyddai dim yn ei digio yn fwy na gofyn am lasiad o laeth iddi — "Llaeth mewn powlan wyt ti'n feddwl" atebai Malan. A dyna ben.

Robert Jones oedd enw brawd Dafydd Jones, gŵr Malan. Collodd Robert Jones ei goes mewn damwain yn y chwarel. Ei waith wedyn oedd torri cerrig ar ochr y ffordd a chofiaf ef gyda thomen o gerrig wrth ei ochr.

Yr oedd Robert Jones a'i wraig yn grefyddol a duwiol iawn. Yr oedd gan Robert Jones ei sêr ei hun i eistedd yng Nghapel y Bryngwyn. Credaf fod y twll yn y sêr o hyd lle byddai Robert Jones yn medru rhoi ei goes bren ynddo. Robert Jones fyddai'n dysgu'r plant lleiaf i ddarllen yr A.B.C.

Soniodd Malan Jones lawer am y noson y bu wrth wely angau gwraig Robert Jones. "Glywch chwi'r canu, Malan?" meddai Mrs. Jones. "Pa ganu?" Atebodd hithau cyn marw, "Mae'r angylion wedi dwad yma i fy nŵl ac maen nhw'n canu."

Yr oedd y diweddar Mr. J.R. Morris, Bethel yn cofio criw o fechgyn yn chwarae marblis ar Ddydd Llun Diolchgarwch. Pwy ddaeth heibio o'r capel ond gwraig Robert Jones. Dyna'r bechgyn i gyd a J.R. Morris gyda nhw yn rhedeg i ymguddio rhag ofn i Mrs. Jones eu gweld.

Byddai Malan Jones hefyd yn y capel dair gwaith bob Sul. Arferai ddarllen ei Beibl yn gyson bob dydd a dysgodd ei phlant i barchu a mynychu moddion gras.

Dyma deyrnged fy nhad iddi: Malan aeth fry i'r Moliant, — hen fydwraig

A haeddai gael cofiant;
Ei llaw oedd fawr ei llwyddiant
Yn y plwyf, awr geni plant.

Glan Rhyddallt.

BETH OEDD ENW'R 'LODES FACH'?

gan Jennie Roberts, Ffrwd Goch, Brynrefail.

Diddorol i mi oedd darllen y dyfyniadau allan o'r 'Genedl Gymreig', Ionawr 1878, yn rhifyn Hydref yr Eco, yn arbennig felly hanes y cyfarfod gwobrwyo yn Ysgol Penisarwaun. Daliodd yr enw Mr William Foulkes, Ty'n Twll, Brynrefail fy sylw yn syth gan y gwyddwn ei fod yn un o'm hynafiaid, sef brawd i'm hen daid a adwaenid wrth yr enw Foulk Williams, Ty'n Twll. Ymbriododd fy hen daid â Lowri Thomas, Bryn Madog, Brynrefail a char-trefu yn Ffrwd Goch, fy nghartref presennol, a oedd y pryd hynny yn fwthyn unllawr. Yr oedd eu mab, sef fy nhaid Foulk William Foulkes, felly, yn gefnder cyfan i 'lodes fach' Mr William Foulkes, Ty'n Twll - yr un a bresenolodd ei hun y nifer gofynnol o ddyddiau oddigerth pump yn Ysgol Penisarwaun yn ystod y flwyddyn 1877. Ond beth oedd ei henw? Clywais fy nhaid yn cyfeirio yn aml at ei gyfnither fel 'Eliza Ty'n Twll.' Collasai fy nhaid ei dad pan oedd ond pum mlwydd oed ac yng ngofal ei ewythr William, tad Eliza, yr aeth i chwarel Dinorwig yn wyth mlwydd oed i weithio yn Nhwl y Mwg. Diau iddo felly ymwneud llawer â'i berthnasau yn Nhy'n Twll, a chlywais ef droeon yn adrodd fel y bu i amryw ohonynt farw o'r darfodedigaeth - clefyd amlwg oedd yn y byd caled oedd ohoni ddiwedd y ganrif

29th. DECEMBER, 1877.
Presented to
by the LOCAL MANAGERS of the
PENISARWAUN BOARD SCHOOL,
for good attendance during school year,
ended, 30th. October, 1877.

ddiwethaf. Tebyg iddo ef, o gan-lyniad, ddod yn feddiannol ar Feibl sydd yn fy meddiant i erbyn heddiw. Hwn yw'r Beibl a gyflwynwyd i'r 'lodes fach' yn wob'r am ddod ar ben y rhestr am ei phresenoldeb yn Ysgol Penisarwaun. Cof gennyf glywed fy nhaid yn dweud hefyd iddi fod yn ddisgybl-athrawes yn yr ysgol honno yn ddiweddarach. Yn ôl Cofrestr Eglwysig Eglwys M.C. Brynrefail, dynodir dydd ei marwolaeth, sef Mawrth 28, 1893, gyda'r nodyn hwn: 'Yr oedd yn ferch ieuanc dda, rhinweddol a chrefyddol. Bydd bwch a cholled o'i hól.'

Fel y gwelir yn y copi o'r wyneb-ddalen o'r Beibl, Saesneg yw iaith y cyflwynair (yn ôl arfer y dyddiau hynny) ac y mae'r Beibl yn ogystal yn yr un iaith.

FFENAST BWLCH-Y-NANT

Mae'r ffenast ar gau ym Mwlch-y-Nant,
Hen ddiwrnod go ddiflas gawn ni heddiw blant;

Disgynnodd y llenni, gorchuddiwyd y fro,
A hithau'n ddydd Gwener, wel dyna hen dro;

Tarth stesion Wyddfa yn gwmwl o stêm
Waeth rhoi'r ffidil yn'to ddim, 'does obaith am gêm;

Mae grisiau'r Elidir dan blanced hud,
(Os gwn-i 'di'r Wyddfa yna o hyd?)

Glaw-slei-bach sy' fel glud ar y coed,
Hen gena pryfoclyd fu smwclaw erioed;

Ond daw chwa o awelon drwy'r Bwlch cyn yr hwyr,
I chwalu'r chwyslaw a'r caddug yn llwyr;

A bydd swildod y machlud ar ôl ager y glaw
Yn afonydd o waed ar y gorwel draw;

A daw rhywun yn gynnar bore'fory blant
I agor y ffenast ym Mwlch-y-Nant.

Selwyn Griffith.

PLAID CYMRU CANGEN DEINIOLEN a'r CYLCH

Cynhelir
FFAIR GAEAF

yn

Ysgol Gwaun Gynfi
Nos Iau, Tachwedd 23
am 7 o'r gloch

Mynediad: Oedolion 15c (yn cynnwys paned)
Plant: 5c

DOWCH YN LLU. BARGEINION DI-RI!

LLANBERIS

LLONGYFARCHION - i Mr a Mrs Peter Rainbow, Stryd yr Wyddfa ar enedigaeth eu merch fach Susan Patricia.

Y FEIBL GYMDEITHAS - Dymuna Mr Thomas Evans, Caledfryn ddiolch i bawb am eu cyfraniadau hael tuag at y Gymdeithas.

PRIODAS RUDDER - Ar ddechrau'r mis dathlodd Mr a Mrs Edward Thomas, 15 Ffordd Tŷ Du eu priodas ruddem. Llongyfarchiadau'r ardal iddynt.

O'R YSBYTY - Dymunwn adferiad llwyr a buan i Mr William Roberts, 13 Stryd Goodman. Bu Mr Roberts yn cael triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor. Gartref o'r ysbyty yn Lerpwl y mae Elwyn, mab Mr a Mrs Gareth Foulkes, Maes Padarn.

Brysia fendio Elwyn bach!

CROESO - i'r pentref i Mr a Mrs Martin Torr a'u teulu. Mae'r teulu wedi symud i fyw i'r 'Prince of Wales'. Pob lwc i chwi Martin a Carol, a hefyd Iwan a Carys ar eich menter newydd!

DIOLCH - Dymuna Mr a Mrs Rainbow, Stryd yr Wyddfa ddiolch i'w teulu a'u cyfeillion am eu caredigrwydd ar enedigaeth Susan fach.

LLONGYFARCHIADAU - i Lynne a Griffith Eurwyn Hughes ar achlysur eu priodas ar Sadwrn, Hydref 14.

DIOLCH - Dymuna Mr R. Owen, 21 Dôl Eilian, Llanberis ddiolch yn fawr iawn am bob caredigrwydd, anrhegion a chardiau a dderbyniodd yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty.

SEFYDLU GWEINIDOG - Nos Wener Hydref 13, 1978 yng Nghapel Coch, Llanberis cynhaliwyd Cyfarfod Sefydlu y Parchedig Marcus Wyn Robinson, B.D., Seilo, Caernarfon yn weinidog



ar Gapel Coch, Gorffwysfa a Phres-wylfa, Llanberis a Rehoboth, Nant Peris.

Ar ôl emyn agoriadol offrymodd Llywydd Henaduriaeth Arfon, Mr G. Caradog Hughes, weddi. Darllenwyd rhan o'r Ysgrythur gan y Parch. Huw John Hughes, B.Ed., ac offrymodd y Parch. Trefor Lewis, B.D., weddi. Canodd rhai o blant yr ofalaeth emyn cyn i'r Llywydd wneud datganiad o bwrpas y gwasanaeth. Cyflwynwyd y gweinidog gan yr Emeritus Brifathro y Parch. S. I. Enoch, M.A., M.Phil., (cyn-brifathro Coleg Diwinyddol Aberystwyth). Ar ôl sefydlu'r gweinidog newydd gan y Llywydd, offrymwyd gweddi dros y gweinidog gan y Parch. Meirion Lloyd Davies, M.A. Croesawyd y gweinidog gan Mr Gwynfor Williams ar ran yr ofalaeth; y Parch. W.O. Roberts ar ran Dosbarth Llanberis; y Parch. Harri G. Parri, B.A., B.D. ar ran Henaduriaeth Arfon, a'r Parch. Gannon Alun Jones ar ran Eglwys i'r cylch. Rhoddwyd siars i eglwys i'r ofalaeth gan y Parch. John Roberts, B.A., B.D., Llanfwrog, ac offrymwyd gweddi ar ran yr eglwys gan y Parch. John Owen, B.A., B.D.. Ar ôl ymateb y gweinidog canodd y gynulleidfa 'Mi glywaf dyner lais', cyn offrymu'r Fendith Apostolaidd, a chloi'r cyfarfod gydag emyn arall.



Mr a Mrs E. Thomas ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem yng ngwesty Erw Fair

E.W.&M.WILLIAMS



Y BECWS DEINIOLEN

FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES - TEISENNAU BLASUS !

(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)

DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER
YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN

DEINIOLEN

Y TABERNAACL — Prynhawn dydd Llun Diolchgarwch cafwyd pregeth gan y Parch. Albert W. Jones, yn cael ei ragflaenu gan blant yr Ysgol Sul. Ar ôl y gwasanaeth penderfynwyd cael cofeb er cof am y diweddar Barch. George W. Brewer, M.A., B.D. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod gweddi.

Nos Iau, Tachwedd 2 yn y Tabernacl cynhelir Darlith gan y gweinidog, y Parch. Albert W. Jones ar y testun 'Dyddiau'r Coleg'.

MERCHED Y WAWR — Ailagorwyd tymor Merched y Wawr, nos Lun, Medi 18 gyda Pharti Glynrhonwy yn cyflwyno gwahanol eitemau. Cafwyd noson foddhaol iawn a diolchwyd iddynt gan y llywydd newydd, Mrs Dilys Hughes, a Miss Kathleen Jones. Estynnwyd croeso cynnes hefyd i'r llu pensiynwyr a'r aelodau. Rhoddwyd y te gan aelodau'r pwyllgor ac enillwyd y raffl gan Mrs Laura Williams. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Tachwedd 27 ac fe ddisgwylir Mrs Cemlyn Williams yno.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU — Capel Ebeneser oedd cyrchfan Ysgolion Sul Brynrefail, Deiniolen, Dinorwig a Phen-ysarwaun bawn Sul, Hydref 1, lle cynhaliwyd Cyfarfod Undebol dan nawdd Cymdeithas y Beibiau Cangen Deiniolen a'r Cylch. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr. Windsor Williams, a chyflwynwyd eitemau caboledig gan blant ac ieuencid yr Ysgolion Sul. Croesawyd y Parch. Trefor Lewis i'r cyfarfod am y tro cyntaf, a chafwyd cyfarchiad pwrpasol ganddo ef a Mr H. Emyr Pritchard, trysorydd y gangen.

Bellach, daeth y cyfarfod hwn yn arhosol ar galendr yr eglwys, a chytunwyd ei fod i'w gynnal yn flynyddol ar y pnawn Sul cyntaf o Hydref.

DIOLCH — Dymuna Miss Annie Parry, 13 Tai Marian ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tra bu yn Ysbyty Môn ac Arfon ym Mangor. Diolch hefyd i'r meddygon a'r gweinyddesau yno.

Dymuna Mrs. Williams, 13 Tai Marian ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ati tra bu yn yr ysbyty ym Mangor.

PLAID CYMRU — Mwynhaodd aelodau'r gangen noson ddifys ar Hydref 4 yng nghwmni rhai o aelodau cangen Rhiwlas. 'Roedd timau o'r ddwy gangen yn cystadlu mewn cwis am Gymru a drefnwyd gan Mr Gwyn Parry, ac ef hefyd oedd yr holwr. Diolchwyd i bawb a gymerodd ran.

Cynhelir cyfarfod blynyddol y gangen yn ysgol Gwaun Gynfi nos Wener, Tachwedd 3. Dechreuir am 7 o'r gloch a disgwylir Mr Dafydd Wigley A.S. i annerch y cyfarfod. Gobeithiwn weld nifer fawr o aelodau yn bresennol, a bydd croeso cynnes i eraill sydd a diddordeb.

Y SEINDORF — Dymuna aelodau'r seindorf ddiolch i bawb am bob rhodd a gweithred er budd eu galluogi i gyrraedd eu targed i ymweld â'r Almaen. Diolch diffuant i bawb.

PRIODAS — Yng nghapel Salem, Caernarfon ddydd Sadwrn, Medi 23 priodwyd Mr Stephen Baker, B.Pharm., M.P.S., mab Mr a Mrs A.E. Baker, Kirk Merrington, Co. Durham, gyda'r Dr. Eurgain Jones, B.Sc., M.B.B.S., merch Mr a Mrs Arfon Jones, Arfryn, Llys Gwyn, Caernarfon (gynt o Ddeiniolen). Y Parch. Brython M. Davies a weinyddodd y briodas, a'r organydd oedd Mr. T. Emrys Lewis. Mr John Talbot (ffrind y priodfab) oedd y gwas priodas a'r ystlyswyr oedd Mr Terry Robson (brawd-yng-nghyfraith y priodfab) a'r Dr. Richard Hull (ffrind y briodasferch). Dr. Sarah Hadfield, ffrind y briodasferch oedd yn gweini arni, a rhoddwyd hi i'w gŵr gan ei

thad. Gwisgai'r briodasferch ffrog wen Edwardaidd, a chariai dusw o flodau pinc a gwyn. 'Roedd y wledd briodas yng Ngwesty Brenhinol Victoria, Llanberis, gyda 100 o westeion, a threuliodd Mr a Mrs Baker eu mis mēl yng Nghernyw. Mae'r briodasferch yn anaesthetidd yn Ysbyty Cyffredinol Nottingham, a'r priodfab yn fferylllydd yn Derby. Trefnwyd y ceir ar gyfer y briodas gan Mr Myrddin Pritchard, Llanberis.



APÊL GWAUN GYNFI — Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar Hydref 13, derbyniwyd ymddiswyddiad Mr Ronald Wyn Roberts o'i swydd fel Ysgrifennydd y Pwyllgor oherwydd galwadau trymion ei waith beunyddiol. Aildrefnwyd y Swyddogion fel a ganlyn: Cadeirydd — Mrs. Eirlys Lloyd Jones; Is-gadeirydd — Mrs Jane Eirlys Williams; Trysorydd — Mr Leslie Roberts; Ysgrifennydd — Mr Robert Williams.

Mae'r Apêl wedi cyrraedd rhyw £1,200 hyd yn hyn, ac er bod yr amser yn prinhaus, mae'r Pwyllgor yn hyderus o gyrraedd y nod o £2,900 a osodwyd ar gyfer Deiniolen, gyda chefnogaeth ac ewyllys da'r pentrefwyr. Gyda hynny mewn golwg, cynhelir Cyngerdd yn Ysgol Gwaun Gynfi am saith o'r gloch nos Fercher, Tachwedd 1, gyda Rol Williams, y Waunfawr yn arwain, Seindorf Arian Deiniolen yn ymddangos am y tro cyntaf er ei dychweliad o'r Almaen, Einir Wyn, Rhiwlas, a Pharti Adrodd y Rhos, Bethel (arweinydd: Mari Wyn Jones, Deiniolen). Pwysir am gefnogaeth gryno i'r Cyngerdd hwn, sy'n siŵr o fod o safon uchel.

Nos Wener, Tachwedd 17 cynhelir Disco Fawr yn Neuadd Ysgol Gwaun Gynfi o 6.30 p.m. tan 10.00 p.m. Mae hwn yn drefniant arbennig ar gyfer ieuencid y pentref, a disgwylir y bydd llond y Neuadd yn manteisio ar y ddarpariaeth.

Gwylwch golofnau'r Eco am ragor o fanylion o fis i fis.

Tan-y-Coed

O'R YSBYTY — Croeso adref i Mr Ifor Williams, Cartref. Da deall ei fod yn gwella.

O AFFRICA — Croeso adref hefyd i Mrs Ashton, 10 Tai Bryngwyn a'i dau blentyn bach, Kenneth a Mary. Bu'r teulu yma yn byw am gyfnod yn Affrica lle mae Mr Ashton yn dal swydd. Bydd Mr Ashton yn dod adref mis Rhagfyr, wedi cwblhau ei waith yn ei swydd bresennol.

AR Y RADIO — Bore Sadwrn, Hydref 14 ar Ddisco Dei clywyd Grŵp Tocyn Chwech. Y mae Dylan Bryn Jones, 3 Tai Tan-y-coed yn aelod o'r grŵp. Clywir hwy eto ar radio sain Sadwrn, Hydref 21. Hwyl fawr iddynt.

Dymuniadau da i Dylan hefyd yn ei swydd newydd gyda chwmni Clogwyn Deiniolen.

LLONGYFARCHIADAU — i Mr Roberts a Mrs Veronica Roberts (gynt o 7 Maesgerddi, ond yn awr o Lanberis) ar enedigaeith eu merch fach, Denise.

CYDYMDEIMLAD — Medi 30 brawychwyd y fro â'r newydd trist am farw



1 Rhes Victoria, Deiniolen

Amgaeaf ddarlun o athrawon Ysgol Deiniolen a symudodd o'r hen ysgol i'r ysgol newydd ym 1928 neu 1929. Dyma eu henwau:

Y rhes isaf o'r chwith i'r dde: Mrs L. Jones (Thomas gynt); Mr R.G. Williams, prifathro'r plant hynaf; Mrs A. Griffith (Roberts) prifathrawes ysgol y babanod a Mrs Roberts.

Y rhes uchaf: Mrs K. Hughes (Jones); Mrs M. Williams (Ellis); Miss S. Thomas; Mr Jones Henry, Miss G.A. Pritchard, Miss L. Jones (gwneud gwaith ymarfer oedd hi).

Pan fu Mrs Williams, Cynfi farw ym 1973, 'roedd Mrs A. Griffith a minnau yn ymwybodol iawn mai dim ond ni ein dwy oedd yn fyw o'r naw, symudodd i'r ysgol newydd. Fis Awst diwethaf, bu Mrs Alice Griffith farw. Trist yw meddwl fod wyth o'r rhai sydd yn y darlun wedi'n gadael.

Amgaeaf hefyd ddarlun o'r plant oedd yn ysgol y babanod yn fuan ar ôl i ni symud yno.

K. Hughes.



sydyn Mr William Humphreys, Lasynys, blaenor ffyddlon yng nghapel Tan-y-coed. Cydymdeimlwn â'i briod Mrs Jane Humphreys a'i ferch Nia, a'i frawd Mr John Humphreys, Carmean, a'r teulu oll, ac â chapel Tan-y-coed yn eu colled fawr annisgwiliadwy.

DIOLCHGARWCH — Dydd Llun Diolchgarwch cafwyd tri chyfarfod bendithiol iawn yng nghapel Tan-y-coed: Cyfarfod Gweddi yn y bore, Cyfarfod y Plant yn y prynhawn, a phregeth yn yr hwyr. Daeth cynulliad da i'r holl gyfarfodydd.

Trefnwyd Cyfarfod y Plant gan y gweinidog, y Parch. W.O. Roberts. Ef hefyd oedd yn annerch y plant yn ystod y gwasanaeth. Gwnaeth yr wyth plentyn ar hugain oedd yn bresennol

eu gwaith yn ganmoladwy iawn, er mwynhad mawr i'w rhieni, a'u perthnasau a'r gynulleidfa oll. Calonogol oedd gweld cynifer wedi dod ynghyd i gefnogi'r plant.

Cyfeillydd y prynhawn oedd Mrs Beryl M. Jones a Mrs Carys Ll. Jones yn cynorthwyo gyda'r canu. Mrs. Violet Blanchard oedd y cyfeillydd yn y bore a'r hwyr. Y Parch. Elwyn Edwards, Caernarfon oedd yn gwasanaethu yn yr hwyr.

AR WERTH

DAU FEIC PLENTYN — mewn cyflwr da iawn. 6 oed — £8; 4 oed — £12 (fel newydd). Ffôn: Llanberis 471

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

PENISAR WAUN

YSGOL GYNRADD — Bythefnos yn ôl ymunodd wyth o aelodau'r Urdd â'r degau eraill o blant Gwynedd a droediodd o wahanol gyfeiriadau i Gwm Pennant. Cafwyd tywydd bendigedig i gerdded o Ryd-ddu, trwy Fwlch y Ddwy Elor, i lawr hyd "gynefin y carlwm a'r cadno" ac i Ddolbenmaen.

Ymwelodd plant y ddau ddosbarth hynaf â Theatr Seilo yn ddiweddar i wyllo cyflwyniad o 'Hip Hip i Pipi' gan Theatr Bara Caws.

Cynheli Noson Goffi yr Ysgol ar nos Wener, Tachwedd 23. Gwerthfawrogrir pob cyfraniad!

EGLWYS ST. HELEN — Cafwyd cyfarfod o Undeb y Mamau nos Lun, Hydref 2. Cymerodd y Ficer ofal o'r gwasanaeth. Ef hefyd oedd wedi gwneud cwis. Llongyfarchwyd Alun Mowll am gynrychioli'r ysgol Sul yn Neiniolen. Cydymdeimlwyd a Mrs M. J. Roberts a Mrs. Owen Thomas yn eu profedigaeth yn ddiweddar.

Rhodddwyd y te gan Mrs. T. Evans, Brynrefail a Mrs. O. Thomas. Diolchodd Mrs. O.C.Roberts iddynt.

Cafwyd Cyfarfod Diolchgarwch llewyrchus iawn a charai'r Ficer ddiolch am y rhoddion a gafwyd. Fe'u hanfonwyd i Blas Pen Gwaith, Llanberis. Anfonwn ein cyfarchion i Mrs. G. Jones, Rhoswian a Mrs. S. Roberts Ship Cottage; nid ydynt wedi bod yn dda iawn yn ddiweddar.

MRS. EIRIONA WILLIAMS — Yn sydyn nos Lun Diolchgarwch aethpwyd a Mrs. Eiriona Williams, Glyn Euron i Ysbyty'r Cottage yng Nghaer-narfon. Yr ydym yn falch o glywed ei bod yn well rwan.

PRIODAS AUR (Hydref 6) — Llongyfarchiadau i Mr a Mrs H. Ellis Roberts, Vine Cottage ar achlysur eu priodas aur. Pob bendith a hapusrwydd i'r ddau ohonynt.

GWERSI CYMRAEG — Dechreuwyd gwersi Cymraeg i ddysgwyr yn yr ysgol gynradd ac mewn cartrefi. Da e beth oedd gweld nifer o rieni'r plant yn bresennol yn dangos diddordeb. Yr athrawon ydi Len Jones, Tony Elliott a Leslie Larsen. Mae'r dosbarth a'r athrawon yn estyn croeso i aelodau newydd.

PARTI'R HEULWEN — Mae Parti'r Heulwen wrthi'n ymarfer ar gyfer Rhaglen y Gaeaf. Bydd y Parti yn cynnal nosweithiau yng Nghaer-narfon, Bethesda, Bontnewydd, Rhiwlas ac mewn Cartrefi Henoed. Pob llwyddiant iddynt yn eu gwaith.

LLONGYFARCHIADAU — a dymuniadau da i Dilys, 3 Bryntirion ar achlysur ei phriodas yn ddiweddar. Bydd yn mynd i fyw i Ynys Môn.

PWYLLGOR YR EISTEDDFOD — Cynhaliwyd Noson Goffi hynod o lwyddiannus yn yr Ysgol Gynradd ddiweddar. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Yn ystod y noson tynnwyd y tocynnau buddugol yn y Raffl Fawr a drefnwyd gan y Pwyllgor. Dyma enwau'r buddugwyr: (1) Cinio i ddau yng Ngwesty Gallt y Glyn — Don McKeown, Tal-y-sarn. (2) Darlun gan arlunydd lleol — Mrs. M. Jones, 5 Llys y Gwynt. (3) Bocs o nwyddau o Siop Gron — G. V. Jones, Ffestiniog. (4) Potel o Sieri — Beryl Jones, Penrhyndeudraeth. (5) Potel o Wisp — Dylan Jones, Meillionydd. (6) 56 pwys o datws — Mr. Percy Williams, 3 Llys y Gwynt. (7) 3 dwsir o wyau — Gerald Lee, Wylfa, Ynys Môn. (8) Cant o lo — Bethan Owen, Moelfre, Ynys Môn. (9) Cyw lar — A. Evans, Porthaethwy, Ynys Môn. (10) Trip i deulu ar Reilffordd Llyn Llanberis — Mrs. G.M.Marsh, Canvey Island, Essex.

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn i bawb am eu cefnogaeth, ac yn enwedig i'r rhai a roddodd y gwobrau i'r raffl. Diolch yn fawr. Yn sgil llwyddiant y raffl a'r noson goffi mae'n bleser gennym gyhoeddi bod y Pwyllgor wedi trosglwyddo £740 i Swyddfa'r Eisteddfod hyd yn hyn. Disgwylir i Ben-sarwaun gasglu cyfanswm o £1,100, felly tua £360 sydd eisiau arnom erbyn hyn. Diolch yn fawr iawn i chwi fel pentref am eich haelioni.

Cynhelir Taith Gerdded Noddedig dan nawdd Pwyllgor yr Eisteddfod hyd y llwybrau traed yn yr ardal fore Sadwrn, Tachwedd 11. Cychwynnir am 10 o'r gloch o'r ysgol. Cysylltwch â Tegid Roberts neu Tony Elliott am fanylion.

Mae'r Pwyllgor Eisteddfod yn arbennig o ddiolchgar i Mrs. Jean Roberts, 6 Bryn Eglwys am drefnu Parti Dillad yn ei chartref yn ddiweddar ac am drosglwyddo'r elw o tua £15 i Gronfa'r Eisteddfod. Diolch yn fawr Jean.

CROESO'N ÔL — o'r ysbtyy i Bryngwyn Griffith. 'Roedd pawb yn falch o weld Bryn yn ôl ar ôl ei waeledd.

Y GOLEUADAU NEWYDD — Mae pawb yn y pentref yn falch o weld y goleuadau oren yn cael eu gosod i fyny. Mae'r Cynghorydd Pat Larsen wedi treulio tua blwyddyn a hanner yn sgrifennu llythyrau ac yn siarad â swyddogion y Cyngor i geisio cael y goleuadau i'n pentref ni, a nifer o bentrefi eraill yn y cylch. Bellach gwelwn ffrwyth ei gwaith. Oherwydd hyn mae'n drist iawn i orfod cyfeirio at y ffaith fod un o'r goleuadau newydd hyn, ar groesffordd King Arthur, eisoes wedi bod yn darged i gerrig. Mae'r golau, bellach, wedi cael ei dorri.

BRYN REFAIL

SEFYDLIAD Y MERCHED — Ar Fedi 22 daeth naw o aelodau ynghyd, ac yn absenoldeb y llywydd, darllenwyd llythyr y mis gan J.A.Roberts. Llongyfarchwyd Mr a Mrs Jennie Hughes am fod yn daid a nain a chroes-awyd Mr a Mrs O.J.Williams gartref o America. Cafwyd noson ddifur o dan ofal Mrs Pat Jones ac enillwyd yr ornest 'Beetle Drive' gan Mair Williams. Rhoddwyd y te gan Mair Williams a Jennie Roberts, ac anrheg y mis gan Betty Owen, ac fe'i henillwvd gan H.J.Jones.

GARTREF O AMERICA — wedi treulio mis o wyliau gyda'u mab a'u merch yng nghyfraith, croeso'n ôl i Mr a Mrs O.J.Williams. Dymuna Bryn a Loraine ddiolch i'r teulu a chyfeillion ym Brynrefail a Llanberis am y dymuniadau da a'r anrhegion a gludwyd gan Mr a Mrs Williams i America.

CLWB Y MAMAU — Cyfarfu deg o aelodau yn yr ysgol ar Hydref 12 a chafwyd cwis dan ofal Mrs Moira Ellis. Rhoddwyd y te gan Sheila Williams ac Ann Parry. Rhoddwyd anrheg y mis gan Shirley Roberts ac fe'i enillwyd gan Jackie Jones.

Bwriedir cynnal trip i Gaer ar Dachwedd 25. Cysyllted unrhyw un sydd â diddordeb yn hyn â Jackie Jones, 1 Tai Orwig.

DOSBARTH YMARFER CORFF — Bwriedir cynnal dosbarth dan nawdd Clwb y Mamau, ond fe fydd yn agored i unrhyw wraig neu ferch. Bwriedir cynnal y dosbarth yn Nhŷ Glas bob nos Lun am 8 o'r gloch, dan hyfforddiant Mrs Sue Cohen.

CLWB PEDWAR UGAIN — Enillwyr y mis — Medi 1af :— (1) Eirianwen Evans, 1 Tremeilian. (2) Helen Jones, 5 Tremeilian. (3) Ken Jones, Cae Coch.

Medi 8:— (1) Mrs Hasson, Bryn Myfyr. (2) Bobbie Roberts, Pen Llyn. (3) David Ellis, Gwledfa.

Medi 15:— (1) Jinnie Williams, Bryn Melyn. (2) Mrs Owen, 10 Trem-eilian. (3) Helen Roberts, Llyncoed Bach.

Medi 22:— (1) Carol Houston, 2 Tremeilian. (2) Merddyn Jones, Greuor Villa. (3) Barbara o Lerpwl.

Medi 29:— (1) Owen Roberts, Llwyn Helyg. (2) Mike Collins, Deiniolen. (3) Wilburt Williams, Marino.

Dan nawdd y Clwb, bwriedir trefnu arddangosfa Tân Gwylt a choelcerth yn y cae chwarae ddydd Sadwrn, Tachwedd 4. Er mwyn diogelwch y plant erfynnir ar rieni i beidio â phrynu tân gwylt i'r plant, ond yn hytrach, fe wneir casgliad o dŷ i dŷ ar nos Wener, Hydref 27.

APÊL YR EISTEDDFOD — Cafwyd taith gerdded hyd bellter o 5 milltir ddydd Sadwrn, Hydref 14. Diolch yn fawr i bawb a gerddodd ac i'r noddwyr. Gobeithir casglu oddeutu £50.

CROESO CYNNES — i Seth ac Elizabeth Thomas, sydd bellach wedi cartrefu yng Nghreigle.

DIOLCHGARWCH — Trefnwyd gwasanaethau'r bore a'r hwyr gan swyddogion yr eglwys a chafwyd gwasanaeth arbennig o dda gan blant yr Ysgol Sul yn y prynhawn.



Llun y gwningen a'i pherchennog a enillodd bencampwriaeth y Sioe Gwningod yn Llanrug yn ddiweddar.

LLYFRAU

MAE'R GELYN YN GRAFF: gan Maurice Dehobra ac Anne Mariel (Trosiad gan W.J. Jones, Aberconwy)

Cyfrol yw hon eto ar gyfer Llyfrgell-oedd yn unig, ac nid oes modd ei phrynu yn y siop. Dyma damaid i'w brofi rhag ofn y byddwch mewn pen-bleth, beth i'w ddarllen, pan yn y llyfr-gell.

Nofel antur yw hi yn llawn rhamant ac emosiwn, a'r ferch brydferth,

Anisia, yn ganolbwynt iddi. Daw Anisia yn rhannol o dras Cymreig ac ar fin priodi Jacob Halvan, sydd yn berchen mwyngloddiau diamwntau pwysig yn Affrica. Mae Halvan yn ffrind personol i'r Arglwydd Kruger ac yn ei gynorthwyo, yn y dirgel, yn ei frwydr yn erbyn y Saeson. Bu'n rhaid i Lefftenant James Machensie o'r Gordon Highlands a oedd yn brwydro ar ochr y Saeson anghofio ei gariad a chanlyn yr Anisia brydferth er mwyn ennill gwybodaeth ddirgel. Aeth y gar-wriaeth "dan ochymyn" yn rhywbeth mwy na charwriaeth arwynebol...

R. Hughes Jones

a'r Mab

Cigyddion
BRYN AFON, CRAWIA
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3188

CIG BLASUS I'R RHEWGELL
PRISIAU CYSTADLEUOL
DIGON O DDEWIS, LLE HWYLUS I BARCIO



TEYRNGED

JOHN H. WILLIAMS, 7 MAES EILIAN, DINORWIG

Johnnie Wmffras y gelwid ef gan rai, John bach neu John y Post gan eraill, yr olaf am iddo fod yn Bostman ar droed am flynyddoedd yn Neiniolen, Dinorwig a'r Fachwen, ac yn ddiweddarach Llanberis. Cerddodd filltiroedd trwy stormydd geirwon er ei fod yn ddigon llesg ei iechyd. Adwaenid ef gan bawb fel cymeriad tawel, nid yn yr ystyr nad oedd ganddo ddim i'w ddweud, oherwydd yr oedd gan John hiwmor iach a gallaf glywed ei chwerthin arbennig ef ei hun yn fy nghlustiau yn awr. Na, cymeriad tawel yn yr ystyr na wnaeth gam â neb erioed oedd John. Ni ddywedai air croes am neb ac yr oedd yn barod ei gymwynas bob amser.

Fel John Tan Graig, Fachwen y cofiaf fi a llawer o'm cyfoedion ef, gan iddo dreulio blynyddoedd yn Nhan-y-Graig, Fachwen yn byw gyda'i chwaer, ei gŵr a Beti eu hunig ferch. Bu Mrs. Jennie Jones fel mam iddo, gan iddo golli ei fam ar ei enedigaeth a chymerodd Mrs. Jones y cyfrifoldeb o'i fagu.

Mae gennyf gof bychan ohonynt yn symud i'r Fachwen, nid wyf yn sicr i ble, ond buan iawn y gwnaethont eu lle yn yr ardal. Nid yw'n bosibl felly sôn am John heb sôn am y Capel lle y cymerodd ran flaenllaw. Bu'n ysgrifennydd yr Ysgol Sul am gyfnod a rhoddwyd llyfrau eraill ynglŷn ag ystadegau'r eglwys yn ei ofal. Ond ei brif ddawn oedd cymryd rhan — darllenai'r emynau yn glir a chroyw — gweddïai o'i galon a'r chwys yn byrlymu i lawr ei wyneb; yn sicr, 'roedd ei galon yn y gwaith. Yr emyn a lediai yn aml oedd, "Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw" ac er mai rhyw lafnos o hogan oeddwn i y pryd hynny, mae clywed John yn ei adrodd yn fyw yn fy nghof a thystiaf fod John yn credu bob gair yn yr emyn ac yn sicr, dyna, ar wahân i'r gofal a gafodd gan ei deulu, a'i daliodd cyhyd. Bachgen bregus ei iechyd fu John erioed; dioddefodd driniaethau mawr mewn gwahanol ysbytai ond rhywfodd deuai trwyddynt yn fuddugoliaethus a chlywid ef drachefn a thrachefn yn tystio: "Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw."

Wn i ddim yn iawn'pa enwad yr oedd John yn perthyn iddo yn y gwraidd. 'Roedd ganddo gysylltiad â chapel yr Annibynwyr yn Neiniolen; bu'n flaenor gyda'r Methodistiaid yng Nghefn-y-Waen; bu'n aelod yn Ninorwig ar ôl ymfudo yno i fyw o'r Fachwen, ac fe'i claddwyd ym mynwent Eglwys Llandinorwig gyda'i rieni, yn ôl ei ddymuniad. Yr oedd John felly yn "all-rounder" ac 'rwy'n siŵr y gallaf fentro dweud nad oedd wahaniaeth ganddo am enwad fel y cyfryw cyn belled â'i fod yn enwad y Brenin Mawr.

Yr oedd yn adroddwr heb ei fath, ac enillodd y wobwr gyntaf mewn sawl eisteddfod yn y cylch gyda darnau fel 'Seimon Mab Jonah' a 'Cymru'. Ai John i ysbryd y darn rhywfodd a gallech glywed pin yn disgyn pan adroddai "Nid Cymru fydd Cymru, a'i choron dan draed."

Bu yn yr 'Young Chronic Sick Unit' yn ysbyty Gallt y Sil am tua dwy flynedd a chan fy mod yn digwydd gweithio yn yr ysbyty hwnnw cefais y fraint o weld John bob dydd bron. Daeth yn ffefryn gyda'r nyrsus, yr oedd yn un o'r cleifion hynny, fel y dywedais o'r blaen, nad oedd byth yn swian nac yn grwnach. Ei brif ddiddordeb oedd darllen llyfrau o chwaeth, Y Goleuad a phapurau crefyddol eraill a gwrando ar raglenni Cymraeg ar y radio. Yr oedd yn hoff hefyd o gael dadl a sgwrs.

Pe bai'r ddawn gennyf gallwn ysgrifennu cyfrol am John. Cawsom lawer i hwyl yn tynnu ei goes, anfon cardiau iddo a gwneud penillion amdano a'u hanfon iddo os digwyddai tro trwstan o'r eiddo ddod i'n clyw.

Chwith meddwl nad yw ef gyda ni mwy. Er i'r 'hen griw' o'r Fachwen (yr ardal ddelfrydol honno nad yw mwyach, ysywaeth) fynd ar chwâl, rhywsut 'roedd pawb yn dal cysylltiad â John ac yntau bob amser yn anfon ei gerdyn Nadolig i bob un ohonom gan ei arwyddo — 'J.H.'

Heddwch i'w lwch. A diolch i Beti am fod mor garedig a gofalus ohono yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Os bu dau yn haeddu medal erioed, John oedd un, am ei ddioddefgarwch tawel a dirwgnach, a Beti yw'r llall, am ei gofal diflino a rhoi amser gorau ei bywyd i ymgeleddu ei mam annwyl a'n gadawodd ar ôl cystudd blin rai blynyddau yn ôl, ac yn bennaf am ei gofal o John.

Mrs. Enid Jones,
Bryn Gelli,
Talsarn.

ER COF AM JOHN
(Mr. John H. Williams, 7 Maes Eilian, Dinorwig)

John y Postmon — anodd credu
Ei fod ef yn awr yn fud;
Mae ei enaid wedi hedfan
Uwch y llawr i arall fyd.
Byd y bu yn sôn amdano
Ganwaith ar ei weddi daer;
Byd o heddwch, heb gystuddiau
Yng nghwmpeni Mab y Saer.

Cario'r post am lawer blwyddyn,
Gwyro'n aml dan ei bwn;
O Lanberis i Ddinorwig
A'r Fachwen y cerddodd hwn.
Gwên er hynny ar ei wyneb,
Hiwmor iach, ŵyr neb y boen —
Mwmian canu wrtho'i hunan
Am ddioddefaint Duw a'r Oen.

Cymeriad tawel a diroddres
Oedd ein cyfaill, pawb a ŵyr.
Rhoi o'i orau i gymdeithas,
Rhoi ei hun i Dduw yn llwyr.
Pregeth a Chyfarfod Gweddi
Ymlwybrodd iddynt drwy bob hin.
Clywais gerddi gorau Cymru
Yn byrlymu tros ei fin.

Gorffwys John, yn dawel heno,
Mae'th flinderau wedi ffoi;
Dysgwyd di i gredu'n ieuanc
Fod gan Gristion le i droi.

Cefais't nerth i frwydro'r tonnau,
Cefais't lusern ar dy daith;
Cefais't ti gyfrinach bywyd —
'Gwaed y Groes a gwyd y graith.'

Enid Jones,
Bryn Gelli,
Talsarn.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW



BP heat
A SHELL-MEX

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

BETHEL

TRIP YR YSGOL — Dydd Iau, Medi 21 aeth plant Safon 3 a 4 ar daith natur a daearyddiaeth i Lyn Brenig. Cafwyd diwrnod difyr a diddorol iawn gyda'r plant i gyd yn mwynhau eu diwrnod allan. 'Roedd y plant yng ngofal Miss Roberts a Mr Elis R. Jones.

NOSON WEU — Cofiwch am y noson weu nodedig i godi arian at yr Eisteddfod Genedlaethol yn yr ysgol nos Fercher, Tachwedd 1. Bydd y merched ac efallai ambell ddyn, yn gwau sgwariau o 7.30 tan 9.30. Os oes gennych ddiddordeb mewn helpu'r ymgyrch, gofynnir i chwi gysylltu ag unrhyw aelod o'r pwyllgor.

BEDYDDIO — Dydd Sul, Hydref 8 yng Nghapel Saron bedyddiwyd David Lloyd, mab bychan Mr a Mrs Terry Warrington, Wern Bach. Gweinyddwyd gan y gweinidog, y Parch. Tudor Davies, Bangor.

Hefyd, ar Hydref 8 yng Nghapel Cysegr bedyddiwyd Richard Stuart, mab Mr a Mrs Peters, Tŷ'r Eglwys gan y gweinidog, y Parch. W.R. Williams.

LLONGYFARCHIADAU — i Mr a Mrs Prydderch, Tan y Cae ar enedigaeth merch — Elen.

DYMUNIADAU GORAU — i'r Parch. Geraint Edwards, sy'n symud yn y dyfodol agos i Lanfechell. Dymunwn y gorau iddo yn ei ofalaeth newydd.

CLWB Y RHOS — Nos Lun, Hydref 9 cafwyd cyfarfod agoriadol y tymor yn yr ysgol. Cafwyd noson ddiddorol iawn gyda Mr Dafydd Williams, sy'n gweithio yng ngwasanaeth Llyfrgell y Sir yn sgwrsio am y gwasanaeth. Fe drefnwyd y noson gan Mr Alun Jones, Y Ddôl. Diolchwyd i Mr Williams gan Mr S.O. Hughes.

Swyddogion y Clwb am y tymor fydd: Llywydd — Mr Ieuan Williams, Llain yr Ardd; Is-Lywydd — Mr Geraint Elis, Sycharth; Ysgrifennydd — Mr J.E. Thomas, Tan y Buarth; Trysorydd — Mr Dafydd Williams, Hafod, Y Rhos.

CLWB Y MAMAU — Nos Fercher, Medi 27 agorwyd tymor newydd y clwb. Croesawyd yr aelodau gan y llywydd. 'Roedd y 'Beetle Drive' lwyddiannus yng ngofal Mrs Mena Davies, Trem Eryri. Tra'n bwyta swper blasus a ddarparwyd gan y pwyllgor bu trafodaeth frwd ar lawer o bynciau. Gobeithir cael ailgodi Carnifal yn ystod yr haf. Hefyd cynhelir Ffair Hydref ar Dachwedd 3. Darllenwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Mrs Enid Hughes, Llys Gwynedd am y rhodd o £5 a dderbyniodd ar ran y clwb tuag at y 'Birmingham Children's Penal Unit'.

Nos Fercher, Hydref 25 bydd Dr. Noel Roberts yn rhoi sgwrs ar Gymorth Cyntaf.

Y swyddogion newydd yw: Mrs Elizabeth Ellis Evans, Blaen Parc (Llywydd); Mrs Nan Owen, Berwyn (Is-Lywydd); Mrs Lyn Mill, 5 Cae Rhos, Seion (Ysgrifennydd); Mrs Jennifer Jones a Mrs Nora, Ystad Tan y Buarth (Trysoryddion). Aelodau ychwanegol y pwyllgor: Mrs Margaret Williams, Cae Rhos, Seion. Mrs Mena Davies, Trem Eryri, Bethel.

CLWB 100 — Tynnwyd y gwobrau ar gyfer y Clwb 100 yng nghyfarfod Sefydliad y Merched nos Iau, Hydref 19 yn yr ysgol. Yr enillwyr oedd (1) £20: Neville Price, Llys Gwynt, Seion; (2) £10: Selwyn Griffith, Crud yr Awen; (3) £5: Jeff Hughes, Eryri. (Cafodd Mrs Mair Jennens, Gors Bach £10 o ail wobwr yn ogystal â Selwyn Griffith).

Y NEUADD GOFFA — Mae cynlluniau ar y gweill i wario £4,000 i wella'r neuadd. Bydd y cynllun yn rhoi toiledau newydd a chyntedd newydd i'r neuadd. Nos Wener, Hydref

20 cafwyd cyfarfod cyhoeddus yn y neuadd i egluro'r cynlluniau i'r pentrefwyr.

EISTEDDFOD BETHEL — Nos Wener, Tachwedd 10 a nos Sadwrn, Tachwedd 11 cynhelir yr Eisteddfod yn y neuadd. Nos Wener bydd y cystadlu yn gyfyngedig i blant Bethel gyda'r cystadlu nos Sadwrn yn rhydd i'r byd. Gobeithio y bydd hon yn Eisteddfod lwyddiannus eto.

RHODD O GWPAN

I'R EISTEDDFOD — Derbyniodd Eisteddfod Bethel 1978 rodd o gwpan ar gyfer Parti Cydadrodd dan 12 oed gan Mr. Gareth Lee, Caernarfon er cof am ei fam a'i dad, Mr a Mrs James Lee, 16 Cremlyn, Bethel. Mae Pwyllgor yr Eisteddfod, a'r ardalwyr, yn gwerthfawrogi rhodd Mr. Lee yn fawr iawn.



PRIODAS — Dydd Sadwrn, Medi 30 yng nghapel Saron (W) priodwyd Mr Morlais Williams, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas a Miss Delyth Parry, Hafod Elen, Bethel. Y forwyn oedd Miss Carys Parry, chwaer y briodferch. Y gwas oedd Mr Dafydd Evans, Pen-issarwaun (ffrind).

Gweinyddwyd gan y Parch. Alun W. Francis, Caernarfon, gyda'r delynores Ann Hopcyn Evans wrth yr organ. Cafwyd y wledd briodas yng Ngwesty Plas Tan Dinas, lle y darllenwyd dros 80 o gardiau yn dymuno yn dda i'r ddau. Byddant yn cartrefu ym Mronarfon, Saron. Hoffai Mr a Mrs Williams ddiolch i bawb am y llu anrhegion a dderbyniasant.

STORFA

Mace

O.R. & M. PARRY

Sgwâr Llanrug

Caernarfon 2790

Perchnogion newydd,
ond gwasanaeth a chroeso
cystal ag erioed!

Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



Gair o ddiolch yn gyntaf am eich ymateb caredig i'r posibilrwydd y byddai lliidiart y 'Llannerch' yn cau oherwydd diffyg diddordeb. Llawnedd oedd canfod fod nifer ohonoch yn darllen y golofn ac yn gwerthfawrogi ei chynnwys.

Diolch i chwi Rhian Williams, Tŷ'r Ysgol, Cilcennin, Llanbedr Pont Steffan (gynt o Lanberis) am eich sylwadau caredig ar fy llyfrau adroddiadau. Da clywed fod 'Kojak' yn plesio plant Llanbedr hefyd! 'Rydych yn apelio am gerdd debyg i'r brawd John Travolta. Pan dderbyniais eich llythyr 'doedd gen i ddim syniad pwy oedd y brawd, ond wedi gwneud ymholiadau deallaf mai canwr/dawnsiwr yw'r arwr. "Ef yw arwr plant Llanddewi-Brefi ar hyn o bryd," meddech... 'Rwan blant bro'r Eco, beth am i mi osod tasg i chwi, sef llunio cerdd i John Travolta, ac 'rwy'n siŵr y gallwch fy helpu drwy wneud hynny, ac y gallwn gyda'n gilydd lunio cerdd a fydd yn dderbyniol gan Rhian a phlant Llanddewi-Brefi.

Diolch hefyd i Mrs. Enid Jones, Bryn Gelli, Tal-y-sarn am ei llythyr diddorol. Mae Mrs. Jones yn holi a "oes posib sefydlu rhyw fath o Ysgol Nos a'i chynnal ('yng Nghaernarfon, dyweder') i rai sydd â diddordeb mewn barddoniaeth; hefyd astudio ychydig ar y cynganeddion — dim ond syniad — beth fyddai'r ymateb tybed?"

Syniad gwyh; a oes diddordeb? Beth am Ganolfan Tan-y-bont fel man cyfarfod? Ynglŷn â dysgu'r cynganeddion, beth am i chwi fynd i gysylltiad â'r Prifardd Gerallt Lloyd Owen neu John Hywyn; gwn eu bod hwy yn cynnal dosbarthiadau cynganeddu.

Hoffais eich cerddi hefyd Mrs. Jones. Dyma un ohonynt, parodi ar gerdd adnabyddus Cynan. Fe ymddengys y gerdd 'Ardal Fy Mebyd' rywdro eto.

HIRAETH AM FRO

Nico annwyl ei di drosta'i
Ar neges fach i'r hen fro wen;
Dos o ganol y tomennydd
Draw i ardal y Fachwen.
Wyt ti'n cofio Pen-y-Bigil
A'r hen gartre uwch y llyn?
Lle y treuliais ddyddiau dedwydd,
Dyddiau mebyd, dyddiau gwyn.

Wedi mynd mae'r hen gyfeillion
A'r hen gapel wedi cau;
Lle 'roedd gynnuau gant a'm cofiai
Nid oes heddiw ond prin ddau.
Wyt ti'n cofio'r hen fythynnod
O Ben Clip i Ben-y-Bryn,
Garneddwen a Thyddyn Uchaf,
Tyddyn Isaf, ger y llyn?

Wyt ti'n cofio Pant-y-Bala
Gyda'i flodau, O mor dlws;
Bron-y-Graig yn uwch i fyny
A'r hen bistyll ger ei ddrws?
Dau Tŷ'n Pwll a dau Cae Canol,
Dau Bryn Saint a Phadarn View;
Rhos-y-Bêl a Chraig y Fachwen —
Hen aelwydydd sanctaidd Duw.

Ydi, mae Talsarn yn hyfryd
Lle 'rwy'n trigo ers amser 'nawr.
Gall ymfrostio, gwir yw hynny,

Yn ei beirdd a'i dynion mawr.
Afon Llyfnwy dreigla'n dawel
Drwy Ddôl Pebin i Ben'groes;
Rhowch i minnau weld Llyn Padarn
Dan y lleuad gyda'r nos.

Mrs. Enid Jones,
Bryn Gelli,
Tal-y-sarn.

Can diolch i Dafydd Whiteside Thomas hefyd am ymateb, a "syrrthio ar ei fai" am beidio ag anfon. Mae ganddo awgrymiadau diddorol dros ben am 'Steddfod y Llannerch, h.y. 'Steddfod sgrifennu.

Gyda llaw, beth am 'Steddfod y Llannerch? Hynny yw, cystadleuaeth fisol — ar englyn, hen benillion, cywydd, stori fer, ysgrif, stori arswyd, triban, vers libre, casgliad o gymariaethau modern (e.e. siarad fel Dalek), casgliad o ddarhebbion newydd sbon, ysgrifennu sgets, baled, ac yn y blaen. Dyna ddigon i gadw'r 'steddfod i fynd am flwyddyn gyda thestun misol. Y gwobrau, wrth gwrs, fyddai cyhoeddi'r goreuon.

Siawns na fyddai ymateb gan rywun yn rhywle i'r cystadleuthau hyn, gan roi digon o amser i baratoi yn ôl natur y gystadleuaeth. Gellid gosod y testun ym mis Hydref (dyweder) a chyhoeddi'r buddugol yn rhifyn Rhagfyr. Efallai hefyd y gellid gwneud trefniant i anfon y testunau misol i Ysgol Brynrefail ac i Ysgol Syr Hugh Owen (o gofio fod pobl ifanc y Waun-fawr yn ddisgylbion yno, a hefyd yn byw yn ardal yr Eco).

Beth amdani?

Pob hwyl,
Dafydd Whiteside Thomas.

Yn dilyn awgrym Dafydd, gan fod y Nadolig yn agosáu, a gaf i apelio am gerddi 'Nadoligaidd' eu naws, — carolau etc.

Dyma barodi arall, o waith Dafydd Whiteside Thomas. 'Does dim angen i mi roi'r teitl gwreiddiol, ond mae Dafydd yn methu penderfynu ar deitl i'w barodi o. Fedrwyd chi ei helpu?

Pan fwyf yn hen a llonydd
A rhif ar gefn fy nghôt,
A'r treial wedi gorffen
Cael sylw'r papur grôt;
Ni chaf ond cell mewn carchar
Heb ddim o flaen ei dôr
Ond creithiau carcharorion
A rhegi cras y côr.

Pan fwyf yn hen a llonydd
A'm byw yn ddim ond bod,
A'm calon yn arafu
Wrth wyllo'r mynd — a'r dod;
Ni fydd i mi bryd hynny
Ond cell a'i haearn ddôr
A chreithiau carcharorion
A rhegi cras y côr.

Pan fwyf yn hen a llonydd
A neb yn cofio 'mai,
Na pham, na sut y pechais;
'Nghydwbyd i nis trai,
Cans ni fydd im bryd hynny
Ond cell a'i haearn ddôr
A chreithiau carcharorion
A rhegi cras y côr.

Oherwydd ni chaf yno
Yn ing fy meddwl i

Ond darlun o'r llofruddio
A'r gwaed yn ddugoch li,
A gwaedda am ollyngdod
O'r gell a'i haearn ddôr
A chreithiau'r carcharorion
A rhegi cras y côr.

A'r diolch olaf am y tro i John V. Morris, Rhianfa, Clwt-y-bont, Deiniolen am dair cerdd dderbyniol iawn. Mae Mr. Morris yn cael blas ar y 'Llannerch' — diolch am hynny. Fe gefais innau flas ar eich cerddi chithau hefyd. Dyma un ohonynt — 'Fy Isymwybod' — a phwt o'ch llythyr:

Annwyl Selwyn Griffith,

'Rwyf yn cael pleser mawr wrth ddarllen 'Llannerch y Llenor' bob mis yn yr Eco. Felly anfonaf ychydig o gerddi atoch a luniais fy hun. Carwn weld rhyw un neu ddwy ohonynt yn cael eu cyhoeddi yn yr Eco, os yw yn bosibl, ac os ydynt yn ddigon da i hynny!

Yn sicr ddigon, maent yn ddigon da a diolch yn fawr iawn i chwi am eich cefnogaeth.

FY ISYMWYBOD

Mae'r awel yn chwarae ym mrigau
y coed,
Yn dweud am gariadon yn cadw yr oed

Y brigau yn sylu i'r awyr uwchben,
A'r lloer yn yr wybren a chwardd am
fy mhen.
Ffoi wna'r cymylau fel praidd o flaen
cŵn,
Yn symud fel sidan, mor rhwydd a
di-sŵn,

A chri y gylfinir a glywaf o bell
I swyno fy enaid a'm gwneud i yn
well;

Ond eto mae'r deryn 'run fath â fy
hun,
Ar hiraeth a thristwch yr ŷm yn gytún;
Mae'r galon yn glwyfus a phell yw y
wawr,

'Does dim ond mudandod y
distawrwydd mawr

Yn llethu fy enaid a'm gadael yn oer,
Ond caf rhywfaint o gysur yng ngolau
y lloer;

Mae fy isymwybod, yn gras, ac yn grai,
Ac ni allaf dy garu ddim mymryn yn
llai,

Er dy fod fel cwmwl ar frys ac ar ffo,
Gobeithaf gael dy gariad, rhyw
ddiwrnod, rhyw dro.

John V. Morris.

Mae digon o syniadau yn y
golofn; beth am ymateb iddynt?
Diolch i chi am eich cyfraniadau
ac am godi fy nghalon — 'roedd
lliidiart y 'Llannerch' ar fin cau.
Hwyl fawr,
Selwyn.

TRIP GWERTH CHWEIL

Eleni aeth Mrs Ellen Jones, Awel y Grug, Cremlyn, Bethel, a'r mab, am dair wythnos o wyliau at y teulu i America. Buont trwy bymtheg talaith: chwe mil o fill-tiroedd gyda'r car, hedfan am ddiwrnod i Mexico. Buont heibio'r Rockies; Pikes Peaks; Colorado; Capulo Mountains a'r Appalachians; dros afonydd Colorado; Missouri; Mississippi; y Rio Grande; Swanney Rivers a thros Gwlff Mexico. Gwelsant yr Alamo yn Santonio, Texas lle'r oedd Baner y Ddraig Goch, ac enwau'r Cymry a gollwyd yn y Frwydr Fawr yn 1863. Enwau John Davis, Thomas A. Roberts, Robert Evans, John Harries a William Irvine Lewis. Buont mewn eglwysi hardd yn Cheyanne. Gwelsant yr Union Pacific Rail Road a'r Frontier Park, lle bydd y rodeo. Trwy'r Paith am filltiroedd a thrwy ran o'r Oregon Trail. Gwelsant Gerrig o'r Lleuad yn Cape Kennedy a Rhyfeddodau Disney yn Florida.

Cawsant ymlacio yn nŵr glân Atlantic yn Daytona Beach a'r

Orange Groges yn Lake Placid a Hen Sugar Plantation. Housemas House, lle gwnaed y ffilm, 'Hush Hush, Sweet Charlotte'. Yn New Orleans clywsant y Famous Dixie Land Jazz a'r Super Dome Stadium, lle 'roedd Muhammed Ali yn prancio ychydig ddyddiau yn ôl. Gwelsant President Carter Peanut Plantations, Georgia, a'r Opreland ar Oskars yn hen gartref President Eisenhower, ac hen Ranch Colonel W. Frederick Cody sef Buffalo Bill yn North Platte, Nebraska. Yr oedd yno 'watch' o anrheg i Buffalo Bill gan Dywysog Cymru pan oedd ar ei ymweliad â Bangor a'r Rhyl yn 1903. Dyma'r taleithiau lle buont: Illinois, Wyoming, Colorado, New Mexico, Texas, Louisiana, Alabama, Georgia, Mississippi, Florida, Tennessee, Kentucky, Missouri, Kansas, Nebraska a ffiniau Mexico.

Mae Mrs Jones yn un o hen deulu Lôn Glai, Pont Rug a'i phriod, Ivor Jones, yn un o hen deulu Rhos Ddu, Llanrug. Buont yn ofalwyr Tŷ Capel Nazareth, Pont Rug cyn ymddeol i Bethel.

YN EISIAU

Hen Lyfrau Cymraeg

Pob peth newydd ar gael fel arfer

LLYFRAU — RECORDIAU — CARDIAU

SIOP Y PENTAN

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON (Ffôn: 5262)

Dyddiadur y Mis

TACHWEDD 1, Mercher: DEINIOLLEN Cyngerdd dan arweiniad Mr Rol Williams, Waunfawr yn yr ysgol. Yr elw er budd Cronfa Apêl Gwaun Gynfi. BRYNREFAIL: Dosbarth nos WEA "Beirdd ein Canrif" yn y Ffestri am 7.30. LLANBERIS: Clwb y Mamau - sgwrs am Gynllun Gwaith Trydan Dinorwig yn y Ganolfan am 7.30. Y Gymdeithas Ddrama. BETHEL: Noson o Wau Noddedig. Yr elw at Gronfa Eisteddfod '79. WAUNFAWR: "Noson y Gwrachod" yn Neuadd yr Eglwys am 6.30. 2, Iau: WAUNFAWR: Sefydliad y Merched - Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol. CWM-Y-GLO: Y Clwb Ieuenctid. LLANBERIS: Dosbarth nos WEA - "Y Dyddiau a Fu" gyda Mr Gareth Heulfryn Williams, MA, DAA yn yr Ysgol am 7.00. 3, Gwener: YR ARDAL: Clwb Eryri - sgwrs gan Dr Eirwen Gwynn yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis. BETHEL: Ffair Hydref Clwb y Mamau yn y Neuadd Goffa. PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. DEINIOLLEN: Cangen Plaid Cymru - Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yn yr ysgol am 7.00. LLANBERIS: Clwb yr Henoed. Bwffe, Dawns ac Adloniant yng Ngwesty Victoria. yr elw er budd Cronfa'r Eisteddfod. Noson o Adloniant dan nawdd Cangen Plaid Cymru yn y Ganolfan. LLANRUG: Dawnsio Hen Amser yn yr Ysgol Gynradd am 8.00. WAUNFAWR Dosbarth nos WEA "Gwerthfawrogi Celfyddyd" yn yr ysgol am 7.00 4, Sadwrn: BRYNREFAIL: Noson Tân Gwyllt a Choelcerth yn y Cae Chwarae 6, Llun: PENISARWAUN: Undeb y Mamau. BRYNREFAIL: Dosbarth Ymarfer Corff yn Nhŷ Glas am 8.00 LLANRUG: Dosbarth WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. Rhai o

aelodau Merched y Wawr yn ymweld â Changen Llangefni. LLANBERIS: Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2.00 Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30. Dosbarth nos WEA "Gwerthfawrogi Celfyddyd" yn yr Ysgol am 7.00. 7, Mawrth: LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol - "Hawl i Holi" DEINIOLLEN: Clwb Elidir. Dosbarth nos WEA "Hanes Lleol" yn yr ysgol am 7.00 LLANBERIS: Undeb y Mamau. Y Seindorf - Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yn y ganolfan. Pwyllogr Lleol Cronfa Eisteddfod '79 yn Ffestri Gorffwysfa am 8.00. 8, Mercher: Cwm-y-glo: Gyrfa Chwist. BRYNREFAIL: Dosbarth nos WEA yn y Ffestri am 7.30 LLANBERIS: Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30. Y Gymdeithas Ddrama. 9, Iau: LLANRUG: Bingo dan nawdd y 'Majorettes' yn yr Ysgol Gynradd CWM-Y-GLO: Clwb Ieuenctid LLANBERIS: Dosbarth nos WEA "Y Dyddiau a Fu" yn yr Ysgol am 7.00. 10, Gwener: BETHEL: Eisteddfod Gadeiriol. PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. LLANRUG: Dawnsio Hen Amser yn yr Ysgol Gynradd am 8.00. WAUNFAWR: Dosbarth Nos Gwerthfawrogi Celfyddyd yn yr ysgol am 7.00. 11, Sadwrn: BETHEL: Eisteddfod Gadeiriol. WAUNFAWR: Eisteddfod Ardal y Waun yng Nghapel Croes y Waun PENISARWAUN: Taith Gerdded Noddedig er budd Cronfa'r Eisteddfod. 12, Sul y Cadoediad: LLANRUG: Gwasanaeth wrth y Sefydliad Coffa am 9.45. 13, Llun: WAUNFAWR: WEA 'Llên Llyfr a Llafr' yn yr ysgol am 7.15. LLANRUG: WEA yn yr ysgol gynradd am 7. LLANBERIS: Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2. Gyrfa Chwist dan nawdd St. Ioan yn y Ganolfan am 7.30. WEA 'Gwerthfawrogi celfyddyd' yn yr ysgol am 7. BRYNREFAIL: Dosbarth Ymarfer Corff am 8 yn Nhŷ Glas. 14, Mawrth: DEINIOLLEN: WEA yn yr ysgol am 7. LLANRUG: Merched y

Wawr - Arddangosfa Goginio. CWM-Y-GLO: Undeb y Mamau. 15, Mercher: LLANBERIS: Y Gymdeithas Ddrama. Clwb y Mamau - Bingo yn y Ganolfan am 7.30. BRYNREFAIL: WEA yn y festri am 7.30. CWM-Y-GLO: Merched y Wawr. 16, Iau: CWM-Y-GLO: Y Clwb Ieuenctid. LLANRUG: Ffair Gaeaf Rig-arug yn neuadd Ysgol Brynrefail am 7.30. LLANBERIS: WEA 'Y Dyddiau a Fu' yn yr ysgol am 7. Disco dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan 17, Gwener: LLANBERIS: Clwb yr Henoed. PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. DEINIOLLEN: Disco Fawr yn neuadd yr ysgol o 6.30 tan 10. Yr elw er budd Apêl Gwaun Gynfi. LLANRUG: Dawnsio Hen Amser yn yr ysgol gynradd am 8. WAUNFAWR: WEA yn yr ysgol am 7. 20, Llun: LLANRUG: WEA yn yr ysgol gynradd am 7. BRYNREFAIL: Dosbarth Ymarfer Corff yn Nhŷ Glas am 8. LLANBERIS: Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30. WEA yn yr ysgol am 7. 21, Mawrth: DEINIOLLEN: WEA yn yr ysgol am 7. Clwb Elidir. LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol - sgwrs gan y Parch. Harri Parri. 22, Mercher: BETHEL: Clwb y Mamau - sgwrs gan Dr Noel Roberts, Caernarfon yn yr ysgol am 7.30. LLANBERIS: Bingo dan nawdd Plaid Lafur yn y ganolfan am 7.30. Y Gymdeithas Ddrama. BRYNREFAIL: Dosbarth Nos yn y festri am 7.30. CWM-Y-GLO: Gyrfa Chwist. 23, Iau: WAUNFAWR: Merched y Wawr. CWM-Y-GLO: Y Clwb Ieuenctid. DEINIOLLEN: Ffair Gaeaf dan nawdd Plaid Cymru yn yr ysgol am 7. 24, Gwener: PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. Noson Goffi yn yr ysgol gynradd. LLANRUG: Dawnsio Hen Amser yn yr ysgol gynradd am 8. WAUNFAWR: Dosbarth Nos yn yr ysgol am 7. 25, Sadwrn: YR ARDAL: Noson Ysgubor Lawen gyda Pharti'r Ddwylan ac Arwel Jones yn Fferm Bryn Afon, Llanrug. BRYNREFAIL: Gwibdaith Clwb y Mamau i Gaer. 27, Llun: DEINIOLLEN: Merched y Wawr - noson yng nghwmni Mrs Cemlyn Williams. WAUNFAWR: WEA 'Llên Llyfr a Llafr' yn yr ysgol am 7.15. LLANRUG: WEA yn yr ysgol gynradd am 7. BRYNREFAIL: Dosbarth Ymarfer Corff am 8. LLANBERIS: Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2. Gyrfa Chwist dan

nawdd St. Ioan yn y Ganolfan ar 7.30. WEA yn yr ysgol am 7. 28, Mawrth: DEINIOLLEN: WEA yn yr ysgol am 7. 29, Mercher: LLANBERIS: Clwb Mamau - noson yng nghwmni M Derek Rees yn y Ganolfan am 7.30 Y Gymdeithas Ddrama. BRYNREFAIL: WEA yn y festri am 7.30 30, Iau: LLANBERIS: WEA "Dyddiau a Fu" yn yr ysgol am 7. CWM-Y-GLO: Clwb Ieuenctid. LLANBERIS Sefydliad y Merched.

DYDDIADAU I'W COFIO


Rhagfyr 1: Eisteddfod Eglwys St Peris a St. Padarn yn Neuadd y Eglwys, Llanberis. Rhagfyr 2: Cinio Nadolig Plaid Cymru Deiniolen yng Ngwesty Dolbadarn Merched y Wawr, Rhanbarth Arfor yn cynnal Ffair Nadolig am 2 yr Neuadd y Fyddin, Caernarfon. Rhagfyr 7: Ffair Nadolig Flynyddol Cymdeithas y Chwiorydd, Capel Mawr Llanrug. Rhagfyr 9: Swper Blynnyddol Seindorf Llanrug yng Ngwesty'r British, Bangor.

AR WERTH.

'Tow Bar' i Datsun 160B neu 180B - £10
Clip on Towing mirror - £1.50
Coats Gadair 'Raleigh' - £5
Roberts, 6 Bryn Eglwys, Penisarwaun
'Tansard' uchel glas tywyll mewn cyflwr da - £15
Evans, 5 Bryn Eglwys, Penisarwaun.

YN EISIAU

Coats 'Buggy'
Roberts, 6 Bryn Eglwys, Penisarwaun.



Enw:
Cyfeiriad:
.....
.....

CROESAIR RHIF 28

AR DRAWS:

3. Dau ddiwrnod ar ôl heddiw (7)
7. Llan (6)
8. Rhan o 7 ar draws (6)
9. Anghrefyddol (8)
11. Afonig (4)
12. Grususau (9)
17. Mwd (4)
18. Aneglur (8)
19. Sylfaenu, sefydlu (6)
20. Ail berson "ohonof" (6)
21. Gorchwyllo (7)

I LAWR:

1. Gofynnodd 'Cynan' beth sydd i'w weled, glywed a'i deimlo yma (7)
2. Ynfydrwydd (7)
3. Santes y cariadon (7)
4. Stori hir ddychmygol (5)
5. Tybio, dychmygu (7)
6. Dynion dwyfol (5)
10. Enw cyntaf telynor enwog (5)
13. Eli a dŵr o wlad dramor (7)
14. Plygu wrth blannu'r ardd? (7)
15. Llwglyd (7)
16. Ysgwyd yn chwyrn (7)

17. Mynd yn araf (5)
18. Sawr (5)

Cyfrifir y llythrennau canlynol fel UN llythyren:
ch; dd; ff; ng; ll; ph; rh; th.

Gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir wedi i'r holl gynigion ddod i law.

Anfoner y cynigion fel arfer i: Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis.

ATEBION CROESAIR RHIF 27

AR DRAWS: 3. Awstria; 7. Mawredd; 8. Ymweld; 9. Bendithio; 11. Deio; 12. Gwarchodlu; 17. Boddi; 18. Edrychiad; 19. Ocsiwn; 20. Modryb; 21. Lluosogi.

I LAWR: 1. Mam ebol; 2. Ychwaneg; 3. America; 4. Twyllo; 5. Iawndal; 6. Cydio; 10. Iechyd; 13. Weithiau; 14. Dwyfoli; 15. Unigryw; 16. Hyd y byd; 17. Broga; 18. Ernes.

ENILLYDD CROESAIR RHIF 27
Mrs Eifiona Jones, Bron Eryri, Brynrefail.

CHWARAEON

Deallaf y bu'r llun o dîm pêl-droed Llanberis 1951-52, a gyhoeddwyd yn *Eco* r mis diwethaf o dan y penawd 'Ai dyma'r Gora?' yn gyfrwng peth dadlau. Ymddengys y gellid fod wedi gwneud yr un datganiad am nifer mawr o dimau Llanberis dros y blynyddoedd, ac mae'n rhaid cofio y dylid ystyried timau Llanrug, a'r rhai fu'n cynrychioli'r Waunfawr, Deiniolen a'r pentrefi eraill.

Pe caniateid i mi fynegi barn bersonol, ar sail fy mhrofiad fel chwaraewr, a gwyliwr gemau'r gynghrair, yn yr ugain mlynedd diwethaf, 'does ond dau dîm yn sefyll allan — tîm y chwedegau Llanberis a thîm presennol Llanrug. 'Does bosib cymharu'n deg, wrth gwrs, fel mae'r Parch. Herbert Thomas yn pwysleisio yn y llythyr a anfonodd, oherwydd y newid mawr sydd wedi bod yn y dull o chwarae ond mae nifer y tlysau a enillwyd gan y ddau dîm yma yn brawf pur pendant o'u rhagoriaeth.

I ddychwelyd at y tîm 1951-52 dywed Mr Thomas fod y Clwb wedi mynd i drafferthion ariannol gan fod nifer helaeth o'r chwaraewyr o ardaloedd eraill, yn bennaf o Flaenau Ffestiniog. Bu'n rhaid ymddeol o'r Gynghrair ac ni fu tîm yn y pentref am rai

blynyddoedd ar ôl hynny. Ymgais efallai, i brynu'r llwyddiant a ddaeth i dîm y pentref ddwy flynedd ynghynt, y tîm hwnnw a thîm Wil Penny rhwng 1934 a 37 yw dewis Mr Thomas, a deallaf mai'r un yw barn y pentrefwyr, gan osod ar yr un bedestl dîm y chwedegau.



TÎM LLANBERIS 1949-50

C. Rutherford, E. Roberts, J. McCuffie, F.R. Jones (Prifathro Ysgol Dyffryn Ogwen heddiw), L. Steward, H.R. Roberts, T. Morrow, Emllyn Davies, E. Jones, J. Williams, Evie Roberts (athro arlunio Ysgol Brynrefail), a J. Millington (ail golgeidwad).

Os nad yw'n sicr pa dîm oedd y gorau, y mae barn bendant gan Mr Thomas am y chwaraewr gorau a fagwyd yn yr ardal erioed, sef Emllyn Davies o Lanberis. Y dyn a'r 'side step' eithriadol fyddai'n twyllo pawb i redeg oddi wrtho. 'Roedd hwn yn athrylith, a'r gallu i reoli cwrs unrhyw gêm y chwaraeai ynddi. Cred Mr Thomas

y gallai fod wedi chwarae i brif dîm Cymru pe bai wedi cael y cyfle ac un o dimau mawr Lloegr wedi taro llygaid arno.

Sail dadl arall, efallai! Beth am anfon pwt i'r *Eco* yn enwi eich chwaraewr gorau, a Llanrug, beth am yr honiad yma mai o Lanberis y daw timau gorau'r ardal!

YMATEB LLANRUG

Daeth yr unig ymateb o Lanrug mewn ffurf barddoniaeth; ni wn pwy a'i hysgrifennodd, nac ychwaith ddim o hanes y 'Reds' yn 1948-49. Oes rhywun all roi'r wybodaeth i mi?

Rhyw Social Bath sydd gennym
I'n tîm ni o Lanrug,
I ddangos parch i'r hogia'
Sy'n ymladd am y League.

Maent hefyd mewn cwpanau,
Yr Alves er cof am Mrs Alves Bryn Bras
A hefyd yn y Penrhyn cup
Wel dyna i chi rai dal

Dic Plas yw y golgeidwad
Nid chwarae mae am bres
Ond helpu Evan Wyn y bac
Ac hefyd Wil Pen Rhes.

Cae Corniog ydi'r half-bac
Ac hefyd Bert a Lei,
'Dyw llwynog, bobol annwyl
Ddim byd i'r rhain o slei.

(Drwy garedigrwydd Mr. Arthur Pritchard, Llanrug).

PÊL-DROED

Ymlaen o nerth i nerth, dyna hanes Clwb Llanrug, er i dîm y Brifysgol roi ysgytwad iddynt yn ystod y mis. Trechwyd y Felinheli a Chaernarfon Utd. yn y ddwy gêm gyntaf, 2-0 oedd sgôr y ddwy gêm, ac yna colli am y tro cyntaf mewn 22 o gemau'r Gynghrair gartref yn erbyn CPGC Bangor, a cholli oherwydd diffyg hyder yr amddiffynfa, ar ôl bod ar y blaen o 4 gôl i 1. Anafwyd dau o hogia' Llanrug yn y broses, — 'roedd angen 12 pwyth ar archoll uwch llygad Gwynfor Owen, a datgysylltwyd ysgwydd Peter Roberts. 5 gôl i 4 oedd y sgôr derfynol.

AIL ROWND CWPAN IAU GOGLEDD CYMRU

22.10.78

Llanrug 9 Cortaulds Maesglas 1
Bu'r Maesglas yn codi ofn ar dimau Gogledd Cymru ers blynyddoedd, ond trechwyd hwy'n hawdd gan Lanrug.

Dic Owen yn sgorio tair yn yr hanner cyntaf a Garry V. Owen, Len Padmore a Vernon Lloyd yn ychwanegu un yr un i'w gwneud yn 6-0 ar yr egwyl. Dwy arall i

Vernon yn yr ail hanner ac un gan un o hogia Maesglas i'w gwneud yn naw cyn iddynt rwydo eu hunig gôl oddi ar y smotyn gwyn.

LLANBERIS

Caernarfon Utd 1 Llanberis 1
30.9.78

Gwilym Williams yn sgorio'r gôl gyntaf i Llanberis yn yr hanner cyntaf, ond Caernarfon Utd. yn ymladd yn ôl yn ffyrnig yn yr ail hanner gyda'r gwynt cryf o'u cefn ac yn sgorio yn y deg munud olaf.

Llanberis 4 Porthmadog 1
7.10.78

Iwan Evans, Raymond Harding ac Einion Holland yn sgorio i Llanberis i'w gwneud yn 3-1 hanner amser ac Einion yn sgorio eto i'w gwneud yn 4-1.

Bethesda 0 Llanberis 4
14.10.78

Gem eitha hawdd i Llanberis. Iwan Evans yn sgorio yn yr hanner cyntaf a Ken Evans i Llanberis yn erbyn ei hen dîm. Iwan Evans a Raymond Harding eto i'w gwneud yn 4-0.

Nid oedd gan Llanberis gêm y Sadwrn diwethaf.

AMDDIFFYN TÎM LLANRUG

Daeth llythyr a gyhoeddwyd yn rhifyn Hydref o Llew — papur bro Dyffryn Nantlle, i'n sylw ac ynddo'r honiad gan Edward Wyn Roberts, cyn-gadeirydd Talysarn Celts mai Llanrug yw tîm mwyaf costus Cynghrair Caernarfon! Annog y Celts ydoedd i anghofio'r gurfa a gawsant gan Lanrug, gan nad oedd disgwyl iddynt guro'r tim mwyaf....

Yn ei ateb ar ran Clwb Pêl-droed Llanrug, y mae Dafydd Whiteside Thomas yr ysgrifennydd, wedi herio Mr Roberts, a Llew i brofi neu wrthbrofi'r honiad drwy gyhoeddi cyllideb holl dimau'r Gynghrair fel y gellid cymharu'n deg.

Â ymhellach gan restru yr holl weithgareddau a gyflawnwyd gan Lanrug er eu hail sefydlu yn 1968, prynu a gwella'r cae, etc., gan ddiweddu â'r cwestiwn 'Sgwn i, EWR, beth wnaeth y Celts â'u harian?'

PENCAMPWYR

Tîm dan 15eg oed Llanberis sydd yn y llun isod, pencampwyr Ail Adran Cynghrair Gwyrfa'i y llynedd. Addewais gynnwys eu llun fisoedd yn ôl, — diffyg gofod oedd y rheswm na ellid gwneud hynny ynghynt.



Rhes gefn: T.J. Roberts (Rheolwr); Keith Evans, David Hughes; Paul Jones; Stephen Owen; Owen Griffiths; Adrian Wakeham; Phillip Guy ac Arwel Roberts.

Rhes flaen: Garry Wakeham; Paul Thomas; Arwyn Williams; Iolo Evans; Dewi Roberts; Michael Griffiths a Terence Griffiths.



AR DRAWS Y CLAWR

'Does neb 'rwy'n siŵr na gyfunai mai braint fyddai cael ei lun ar glawr rhaglen swyddogol Manchester United yn enwedig os yw'r person hwnnw yn un o'i cefnogwyr mwyaf selog. Dyna ple gwelodd Gareth Jones o Lanberis ei lun pan aeth i wyllo ei dîm yn erbyn dinas Birmingham yn ddiweddar, llun a dynnwyd cyn gêm dathlu canmlwyddiant y clwb yn erbyn Real Madrid. Mae'n aelod o gangen Arfon a Dwyfor o'r Clwb Cefnogwyr ac yn teithio i'w gweld yn rheolaidd.